WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

19 Mehefin 2012
www.wao.gov.uk

# Ymgysylltu â'r Cyhoedd mewn Llywodraeth Leol



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi’r adroddiad hwn yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a’m cynorthwyodd i lunio’r adroddiad hwn Kate Ashburner, Andy Bruce, Gwilym Bury, Louise Fleet, Helen Keatley, Michael Palmer a John Weston o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a’r Llywodraeth. Mae yntau’n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy’n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i’r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna’r sefydliadau hynny o’u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella’r defnydd hwnnw.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Gwella Cymru. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw’n cyflwyno adroddiadau i’r Cynulliad Cenedlaethol sy’n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a’i staff gyda’i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2012

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhiad i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.



80% recycled paper
80% o bapur a ailgylchwyd

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwyniad | 6 |
| | Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol | 8 |
| | Argymhellion | 12 |
| 1 | Mae cynghorau yn ymgymryd â chryn dipyn o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, y mae rhywfaint ohono yn galluogi dinasyddion i helpu i lywio gwasanaethau | 15 |
| | Mae cynghorau yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i roi gwybodaeth i'r cyhoedd ac ymgynghori ag ef; fodd bynnag, mae safonau yn amrywio | 15 |
| | Mae enghreifftiau o ddulliau mwy cydweithredol o ymgysylltu, gan gynnwys 'cydweithio' a 'grymuso'r' gymuned yn eithaf prin ond mewn rhai achosion maent wedi cael effaith gadarnhaol ar y modd y darperir gwasanaethau ac ar gymunedau | 23 |
| | Ceir enghreifftiau lle mae cynghorau yn defnyddio gweithgarwch ymgysylltu a allai gael effaith gadarnhaol ar allu a hyder unigolion a'u cymunedau | 24 |
| 2 | Nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau wedi ymgorffori a phrif ffrydio gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn llawn eto yn eu diwylliant sefydliadol na'u gweithgareddau partneriaeth | 31 |
| | Ychydig o gynghorau sydd wedi datblygu dull cadarn, strategol a chydgysylltiedig o ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn gwella canlyniadau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd | 31 |
| | Ceir rhai enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth ym maes ymgysylltu â'r cyhoedd ond ni sicrhawyd unrhyw arbedion effeithlonrwydd sylweddol eto | 36 |

## 3 Anaml y mae cynghorau yn rhoi adborth ar y gwahaniaeth y mae ymgysylltu â’r cyhoedd wedi’i wneud, ac mae gweithgarwch monitro a gwerthuso yn wan 42

Nid yw cynghorau yn gwneud digon i gasglu ac adolygu data am eu gweithgarwch ymgysylltu â’r cyhoedd a cheir gwendidau o ran y modd y rheolir perfformiad y cyfryw weithgarwch ac y creffir arno 42

Ni roddir adborth yn dilyn gweithgarwch ymgysylltu â’r cyhoedd yn gyson i gyfranogwyr, nad ydynt yn cael cyfle yn aml i nodi sut y gellid bod wedi gwella’r gweithgarwch ymgynghori 47


## Atodiadau


Dulliau Archwilio 51

Cyfeiriadau Astudiaethau Achos, gan gynnwys y rhai nas defnyddiwyd yn yr adroddiad 53

Rhestr o gysylltiadau, dogfennau ymchwil a chyfeiriadau gwefannau defnyddiol gan gynnwys Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â’r Cyhoedd yng Nghymru 57

# Cyflwyniad

1 Ymgysylltu â'r cyhoedd yw'r broses a ddefnyddir gan sefydliadau i wahodd dinasyddion i ystyried, trafod a gweithredu ar faterion sy'n bwysig iddynt. Yn gryno, 'yn ei hanfod, mae a wnelo ymgysylltu â'r cyhoedd â lleisio barn ar y penderfyniadau cyhoeddus sy'n effeithio ar eu bywydau'.[1]

2 Mae polisi'r Llywodraeth yng Nghymru yn pwysleisio pa mor bwysig yw ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol. Mae ymgysylltu yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel agwedd hanfodol ar sicrhau bod pob sefydliad yng Nghymru yn canolbwyntio mwy ar y dinesydd wrth lunio a chyflawni ei bolisïau, ei raglenni a'i wasanaethau.

3 Gall gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol gynnig manteision penodol i gynghorau yng Nghymru am ei fod yn chwarae rôl bwysig yn y broses ddemocrataidd. Drwy gasglu gwybodaeth am agweddau ac ymddygiad dinasyddion mae'n dylanwadu'n uniongyrchol ar bolisi neu ganlyniadau gwasanaethau. Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol yn:

- 'cynyddu hyder y cyhoedd yng ngweithgarwch llywodraeth leol;
- darparu tystiolaeth fel sail ar gyfer penderfyniadau;
- helpu i roi llais i gymdeithas ehangach (gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hymylu yn flaenorol); a
- sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu yn fwy effeithiol.' [2]

4 Yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf mae strategaethau allweddol Llywodraeth Cymru wedi ceisio dylanwadu ar lywodraeth leol er mwyn sicrhau ei bod yn ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd. Yn y ddogfen *Creu'r Cysylltiadau: cyflawni ar draws ffiniau* a gyhoeddwyd yn 2004 mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad clir o ran pa mor bwysig yw ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r ddogfen yn nodi: 'Gallwn sicrhau gwelliannau go iawn - gwelliannau y gall pobl eu cydnabod a'u deall - drwy eu cynnwys yn y gwaith o lunio a chraffu ar ein gwasanaethau. Ni ddylid ystyried pobl yn dderbynwyr gwasanaethau goddefol.' Mae 'Cyfranogiad' yn un o ddim ond dwy egwyddor graidd a nodir yng Nghynllun Datblygu Cynaliadwy cyfredol Llywodraeth Cymru, sef *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned. Mae Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned* yn nodi: 'Mae pobl a chymunedau wrth wraidd datblygu cynaliadwy, felly byddwn yn cynnwys ein holl randdeiliaid yn y broses o ddatblygu'n polisïau a'n rhaglenni.'

5 At hynny, mae mentrau Byrddau Gwasanaethau Lleol a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn ategu'r gwaith o ddatblygu gweithgarwch ymgysylltu effeithiol â dinasyddion a'r gymuned er mwyn gwella'r modd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011' yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd ac, o fewn y cynigion ar gyfer datblygu Cynlluniau Integredig Sengl[3], disgwylir i Fyrddau Gwasanaethau Lleol gynnwys strategaeth ymgysylltu i helpu i ddatblygu a monitro amcanion allweddol.

1 Daw'r diffiniad o wefan Public Agenda, 2010.

2 Ffynhonnell: COI *Effective Public Engagement*, 2009.

3 Cyfeirir atynt hefyd fel Cynlluniau Cyflawni Unigol.



6 Er bod pwysigrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael ei bwysleisio mewn nifer o strategaethau allweddol Llywodraeth Cymru, megis Plant a Phobl Ifanc a Phobl Hŷn, nid oes unrhyw strategaeth genedlaethol gynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru. Cyflwynodd Llywodraeth yr Alban *National Standards for Community Engagement* ym mis Mai 2005, ynghyd â gwefan benodol i helpu ei sefydliadau yn y sector cyhoeddus i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd.[4] Yn sgîl yr argymhelliad yn y ddogfen 'Creu'r Cysylltiadau', dirprwyodd Llywodraeth Cymru y dasg o ymgynghori ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru a'u llunio i Cyfranogaeth Cymru, er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o natur gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol[5]. Lansiwyd yr egwyddorion cenedlaethol gan Cyfranogaeth Cymru ym mis Mehefin 2011.

7 Mae sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu'r her o weld tua £1.6 biliwn yn cael ei dorri o'u cyllidebau rhwng 2010-11 a 2013-14. Mae'r ffaith eu bod yn gorfod wynebu'r fath ddewisiadau a phenderfyniadau economaidd anodd yn ei gwneud yn fwy angenrheidiol fyth i gynghorau ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd. Nododd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad, Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011: 'Bydd angen i arweinwyr ymgysylltu â'r cyhoedd cymaint â phosibl mewn trafodaethau am ffurf gwasanaethau lleol yn y dyfodol, ac esbonio'r rhesymeg dros y newidiadau.'

8 Ystyriodd yr astudiaeth hon a yw gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a gyflawnir gan gynghorau yng Nghymru yn galluogi dinasyddion i helpu i lywio'r hyn y mae llywodraeth leol yn ei wneud. Datblygodd Swyddfa Archwilio Cymru fethodoleg gyffredin (gweler Atodiad 1) a'u rhoi ar waith ym mhob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru.

9 Daethom i'r casgliad bod cynghorau yng Nghymru yn ymgymryd â chryn dipyn o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a bod rhywfaint o'r gweithgarwch hwnnw yn galluogi dinasyddion i helpu i lywio gwasanaethau. Yn aml nid oes cyfeiriad strategol i weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ac nid yw wedi'i gydgydgysylltu; anaml y rhoddir adborth i'r cyhoedd ac mae gweithgarwch monitro a gwerthuso effeithiolrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd yn wan.

10 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae cynghorau yn ymgymryd â chryn dipyn o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, y mae rhywfaint ohono yn galluogi dinasyddion i helpu i lywio gwasanaethau lleol;
- nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau wedi ymgorffori a phrif ffrydio gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn llawn eto yn eu diwylliant sefydliadol na'u gweithgareddau partneriaeth; ac
- anaml y mae cynghorau yn rhoi adborth ar y gwahaniaeth y mae ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i wneud, ac mae gwaith monitro a gwerthuso yn wan.

4 Yn yr Alban, defnyddir y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd i gyfleu natur gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol a pha welliannau y mae angen eu gwneud i'r modd y caiff gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ei gynllunio a'i gyflawni. Maent hefyd yn darparu fframwaith i ddadansoddi profiadau a nodi meysydd i'w gwella.

5 Lansiwyd Egwyddorion Ymgysylltu â'r Cyhoedd ym mis Mehefin 2011 gan Cyfranogaeth Cymru, sef sefydliad a ariennir gan Lywodraeth Cymru i bennu arfer da a rhoi hyfforddiant i'r sector cyhoeddus ym maes cyfranogiad y cyhoedd (gweler Atodiad 3 am fanylion cyswllt).

# Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

## Mae cynghorau yn ymgymryd â chryn dipyn o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, y mae rhywfaint ohono yn galluogi dinasyddion i helpu i lywio gwasanaethau

1 Mae pob un o'r 22 o gynghorau lleol yng Nghymru yn ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar roi gwybodaeth am wasanaethau lleol i'r cyhoedd ac ymgynghori ag ef. Mae cynghorau yn datblygu eu dulliau o ymgysylltu â'r cyhoedd ar wahanol raddfeydd ac mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r gwahaniaethau hyn i'w priodoli'n bennaf i amrywiadau o ran sut mae cynghorau yn blaenoriaethu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ac o ran eu gallu a'r adnoddau sydd ar gael iddynt i ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu. Mae ansawdd a lefel y gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a gyflawnir yn amrywio hefyd. Mae tystiolaeth i ddangos bod rhywfaint o'r gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael effaith gadarnhaol a'i fod yn arwain at newidiadau pendant i wasanaethau llywodraeth leol.

2 Mae cynghorau yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau i roi gwybodaeth i'r cyhoedd ac ymgynghori ag ef, ond ar hyn o bryd maent yn tueddu i ganolbwyntio ar y dulliau technoleg isel mwy traddodiadol, megis defnyddio'r cyfryngau a'r wasg, deunydd wedi'i argraffu, cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol, holiaduron, cyswllt sy'n ymwneud â gwasanaethau ac ymgyrchoedd hysbysu. Serch hynny, mae'r defnydd a wneir o ddulliau cyfathrebu electronig yn cynyddu, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg ffôn symudol. Gwneir defnydd helaeth o wefannau i storio a darparu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd ac ystyrir eu bod yn ffordd effeithlon o gyrraedd y nifer fwyaf o unigolion. Mae cynghorau yn parhau i ganolbwyntio ar ddefnyddio gwefannau ar gyfer gwahanol weithgareddau, megis rhyngweithio rhwng gwasanaethau, gan roi newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf a chyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan mewn ymgynghoriadau. Ceir enghreifftiau o syniadau arloesol i geisio denu gwahanol rannau o'r boblogaeth, megis gwefannau a gynlluniwyd yn benodol i annog pobl ifanc i gymryd rhan. Fodd bynnag, am na all dros draean o'r boblogaeth gael mynediad i wefannau oherwydd diffyg band eang neu gyfarpar cyfrifiadurol mae cyfryngau darlledu a phrint traddodiadol yn parhau i fod yn ddulliau cyfathrebu pwysig ar gyfer awdurdodau lleol.

3 Rydym wedi nodi nifer o faterion a all effeithio ar ba mor effeithiol yw dull cynghorau o ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg gwybodaeth am y dulliau mwyaf llwyddiannus o roi gwybodaeth i gymunedau lleol ac ymgynghori â hwy a ph'un a ydynt o ansawdd digonol, yn gost-effeithiol ac yn briodol i ardal a'i phoblogaeth. Hefyd, nid yw cynghorau yn manteisio'n ddigonol ar eu systemau a'u gwasanaethau presennol sy'n rhyngweithio bob dydd â'r cyhoedd, drwy eu defnyddio i roi gwybodaeth i'r cyhoedd, ymgynghori ag ef a chyfathrebu'n gyffredinol ag ef.



4 Prin oedd yr enghreifftiau ymarferol o ddulliau mwy cydweithredol o ymgysylltu sy'n annog y cyhoedd i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau, llywio'r gwaith o weithredu gwasanaethau neu gael mwy o ymreolaeth i drefnu eu gwasanaethau cymunedol eu hunain ac sy'n rhoi cyfle i'r cyhoedd wneud hynny. Fodd bynnag, mae pob cyngor yn meithrin cydberthnasau gwaith agosach â'r cyhoedd, drwy 'fforymau' ffurfiol, er mwyn canfod a chadw gwybodaeth am y prif bryderon sy'n wynebu aelodau penodol o'r gymuned, megis pobl hŷn a phlant a phobl ifanc. Hefyd, ceir enghreifftiau o gynghorau yn cydweithio'n agosach â chymunedau unigol i fynd i'r afael â materion anodd neu ddadleuol, er mwyn annog a chadw rhywfaint o gyfranogiad gan y cyhoedd fel y gall trigolion gymryd rhan mewn penderfyniadau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu cymunedau eu hunain.

5 Mae rhai cynghorau hefyd yn cydnabod bod gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol yn chwarae rôl hanfodol o ran cefnogi'r aelodau o'r gymuned sydd fwyaf agored i niwed. Gall y fath weithgarwch gynnwys gweithio gyda theuluoedd neu unigolion i nodi problemau a chytuno ar gamau gweithredu i'w datrys; neu weithio gyda grwpiau a chymunedau i geisio mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol megis diweithdra, dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol. Roedd y cynghorau hyn o'r farn bod y fath weithgareddau ymgysylltu yn allweddol i helpu i feithrin gallu a hyder y cyfranogwyr. Fodd bynnag, roedd hyn yn aml yn anecdotaidd am fod gweithgarwch monitro a gwerthuso ar y cyfan yn wan.

## Nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau wedi ymgorffori a phrif ffrydio gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn llawn eto yn eu diwylliant sefydliadol na'u gweithgareddau partneriaeth

6 Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn mynegi rhywfaint o ymrwymiad tuag at ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Fodd bynnag, ymddengys fod llai o ddealltwriaeth o ddatblygu diwylliant mwy agored a chyfranogol a llai o ymrwymiad i wneud hynny At hynny, mewn llawer o achosion, nid yw'r ymrwymiad hwn wedi datblygu'n arweinyddiaeth gadarn ymhlith gwleidyddion a rheolwyr sy'n rhoi cyfeiriad clir ar gyfer datblygu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol a blaenoriaethu'r gwaith hwnnw. Mae'r diffyg cyfeiriad hwn yn effeithio ar y gwaith o sefydlu strwythurau a swyddogaethau corfforaethol y bwriedir iddynt ategu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Er enghraifft, diffinio rôl cynghorwyr o ran gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ac egluro sut mae cyfranogiad y cyhoedd yn effeithio ar drefniadau llywodraethu awdurdod, sy'n canolbwyntio ar hyn o bryd ar rôl cynrychiolwyr etholedig. Codwyd rhai pryderon gan gynghorwyr ynghylch sut y bydd cyfranogiad yn effeithio ar y strwythurau democrataidd cyfredol.

7 Er bod tua thraean o'r cynghorau yn dechrau datblygu dull mwy strategol a chynlluniedig o ymgysylltu â'r cyhoedd, nid oes gan y rhan fwyaf syniadau clir ynglŷn â'u cynlluniau a'u bwriadau yn gyffredinol o hyd. O ganlyniad, nid oeddent yn llwyr ymwybodol o fanteision ymgysylltu â'r cyhoedd; a pha ganlyniadau y dylai fod yn eu ceisio; a sut y dylai'r Cyngor drefnu ei hun i sefydlu dull corfforaethol o gynllunio, cydgysylltu a gweithredu gweithgarwch ymgysylltu effeithiol.

8 Cafwyd nifer fawr o enghreifftiau o brosiectau ymgysylltu â'r cyhoedd penodol a gynhaliwyd gan gynghorau ar y cyd â sefydliadau partner yn y sector cyhoeddus, yn bennaf gan Fyrddau Gwasanaethau Lleol[6]. Mae'n amlwg bod cynghorau yn sylweddoli manteision cydweithio â phartneriaid, gan gynnwys osgoi gorymgynghori â'r cyhoedd. Fel arfer mae'r ymarferion ymgysylltu ar y cyd yn canolbwyntio ar themâu penodol, megis iechyd a lles, diogelwch cymunedol neu drafnidiaeth. Fodd bynnag, nid yw Byrddau Gwasanaethau Lleol wedi datblygu dull cwbl strategol o ymgysylltu â'r cyhoedd eto, er enghraifft drwy egluro eu rolau, cydgysylltu agendâu gwahanol a datblygu canlyniadau ar y cyd a chytuno arnynt. Mae nifer fach o gynghorau wrthi'n datblygu strategaeth i bob Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn eu hardal. Ceir hefyd rai enghreifftiau o gynghorau yn gweithio gydag awdurdodau cyfagos, cynghorau tref a chymuned a'r sector gwirfoddol i gynllunio gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, darparu adnoddau ar ei gyfer neu ei weithredu, ond ar hyn o bryd prin yw'r cynghorau sy'n gwneud hynny ac megis dechrau y mae'r gwaith hwnnw. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth newydd sy'n cyflwyno'r Cynllun Cyflawni neu Integredig Sengl[7], yn pwysleisio rôl 'llais y dinesydd' o ran llywio'r gwaith o wella gwasanaethau a'r ffaith y dylai gael cryn effaith o ran cyflymu'r broses o ddatblygu dulliau mwy cydgysylltiedig o ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n cwmpasu ardaloedd cyfan.

## Anaml y mae cynghorau yn rhoi adborth ar y gwahaniaeth y mae ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i wneud, ac mae gweithgarwch monitro a gwerthuso yn wan

9 Cafwyd nad yw cynghorau yn casglu digon o ddata i sicrhau bod ganddynt ddarlun cyflawn o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a gyflawnir yn gorfforaethol ac ym mhob un o'u gwasanaethau. Ac nid ydynt yn dadansoddi nac yn defnyddio'r data a gasglwyd drwy weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn drylwyr nac yn gynhwysfawr. Prin iawn yw'r cynghorau sydd â chronfeydd data digonol i storio'r holl wybodaeth a gesglir ganddynt. Mae gwasanaethau yn aml yn cadw eu cronfeydd data eu hunain sy'n aml yn anghydnaws â systemau corfforaethol a systemau gwasanaethau eraill ac yn amharu ar y broses o rannu data.

10 Mae llawer o gynghorau yn ei chael hi'n anodd dangos manteision sy'n deillio o'u gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd am nad oes ganddynt systemau cadarn i ddatblygu canlyniadau na mesurau nac adolygu eu prosesau. Mae diffyg canlyniadau clir y cytunwyd arnynt, a ategir gan fesurau perfformiad, yn ei gwneud yn anodd i gynghorau asesu effeithiolrwydd eu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd mewn modd ystyrlon. Nododd llawer o gynghorau nad yw'n hawdd llunio'r fath ganlyniadau sy'n mesur ansawdd ac effaith gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae sawl cyngor bellach yn datblygu'r fath fesurau, gan ddefnyddio canlyniadau sy'n

6 Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn gyrff lle mae arweinwyr sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn dod at ei gilydd i gymryd camau ar y cyd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar y dinesydd.

7 Bwriedir i'r 'cynlluniau integredig sengl' sy'n cael eu cyflwyno ddisodli'r pedwar cynllun a'r pedair strategaeth bresennol, gan leihau cymhlethdod a dyblygu, a rhyddhau adnoddau, a gwella canlyniadau pobl sy'n byw yn eu cymunedau. Mae'n rhaid i'r gwaith o'i ddatblygu gael ei ategu gan barodrwydd i gynnwys dinasyddion yn y broses o ailystyried, ailgynllunio a gweithredu newidiadau i'r system gyfan. (Llywodraeth Cymru *Cydamcanu, Cydymdrechu* 2012.)



seiliedig ar atebolrwydd[8], er mwyn helpu i nodi canlyniadau mwy pendant. Fodd bynnag, nid yw cynghorau yn defnyddio sgiliau eu staff rheoli perfformiad arbenigol i helpu i ddatblygu'r canlyniadau hyn, cymaint ag y dylent, er mwyn sicrhau bod cysylltiad agos rhwng mesurau perfformiad a chanlyniadau ac amcanion corfforaethol neu amcanion gwella allweddol.

**11** Mae'r diffyg data canolog-systemau casglu a gwaith dadansoddi gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn amharu ar ansawdd prosesau rheoli perfformiad, adrodd a chraffu o ran gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd. Felly mae cynghorau yn llai abl i asesu ansawdd ac effaith eu gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd a chraffu arnynt yn fanwl. Yn yr un modd, nid yw cynghorau yn casglu digon o wybodaeth er mwyn iddynt allu asesu gwerth am arian gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Prin yw'r cynghorau sy'n cofnodi neu'n dadansoddi cost wirioneddol gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd o ran cyllideb ac adnoddau neu'n llunio dadansoddiad cost/budd credadwy a allai helpu i ddatblygu rhesymeg dros godi tâl am wasanaethau a chostau gwasanaethau.[9]

**12** Hyd yn oed ymhlith y cynghorau sy'n perfformio'n well, mae rhoi adborth i'r cyhoedd ar ganfyddiadau a chanlyniadau yn deillio o'r fath weithgarwch ymgysylltu yn wendid allweddol. Nid yw cynghorau yn rhoi adborth trylwyr sydd wedi'i ddrafftio'n dda i'r cyhoedd, gan gynnwys cyfranogwyr, i ddangos effaith y gweithgarwch ymgysylltu a dangos yn glir eu bod wedi gwrando ar y wybodaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd gan ddinasyddion, eu hystyried a gweithredu arnynt.

**13** Mae'r diffyg canlyniadau a mesurau perfformiad cadarn yn amharu ar allu cynghorau i ddehongli a dangos newidiadau a gwelliannau i wasanaethau i'r cyhoedd. Nid oes gan y rhan fwyaf o gynghorau safonau corfforaethol a phrosesau y cytunwyd arnynt o ran sut i roi adborth. Maent hefyd yn ansicr ynghylch pwy sydd â rheolaeth olygyddol gyffredinol i ddatblygu adborth hawdd ei ddeall mewn fformat sy'n ddealladwy ac sy'n ymwneud â chanlyniadau gwirioneddol megis newidiadau i wasanaethau neu bolisi. Yn olaf, anaml y mae'r cyhoedd ei hun yn cael cyfle i wneud sylwadau ar gynllun, addasrwydd ac effeithiolrwydd gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd.

---

8 Mae atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau neu RBA yn ffordd ddisgybledig o feddwl a chymryd camau y gall cymunedau ei defnyddio i wella bywydau plant, teuluoedd a'r gymuned yn gyffredinol. Gall RBA hefyd gael ei ddefnyddio gan asiantaethau i wella perfformiad eu rhaglenni. Ceir llawer o enghreifftiau o RBA yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru a gweddill y DU, yn ogystal ag yn rhyngwladol, i newid bywydau pobl er gwell o ran cymunedau cyfan a grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau. Ceir rhagor o wybodaeth ar http://www.raguide.org/

9 Ymchwil i brisio ymgysylltu â'r cyhoedd: *Making the case for public engagement: How to demonstrate the value of consumer input* gan Edward Andersson, Emily Fennell a Thea Shahrokh.

# Argymhellion

## Argymhellion

Yng nghyd-destun heriau ariannol mawr a strategaethau allweddol i Gymru sy'n cynnwys disgwyliadau uwch o ran creu mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd, bwriedir i'r argymhellion canlynol helpu i awdurdodau lleol ddatblygu dull mwy effeithiol ac effeithlon o gyflawni eu gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd.

Cafwyd bod cynghorau yn ymgymryd â chryn dipyn o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, y mae rhywfaint ohono yn galluogi dinasyddion i helpu i lywio gwasanaethau lywodraeth leol. Fodd bynnag, mae gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd awdurdodau lleol ar wahanol gamau o ran datblygu ac aeddfedu ac mae anghysondebau o ran effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac ansawdd yn fater allweddol. Felly, rydym yn argymell y canlynol:

**A1 Dylai cynghorau ddefnyddio'r ystod eang o ganllawiau ac arfer da sydd ar gael i wella ansawdd a chysondeb eu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Er mwyn sicrhau eu bod yn gwella profiadau dinasyddion ac yn cael gwell canlyniadau am eu buddsoddiad mewn gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, dylai cynghorau wneud y canlynol:**

- **defnyddio systemau cymorth megis Cyfranogaeth Cymru;**
- **mabwysiadu deg Egwyddor Genedlaethol ymgysylltu â'r cyhoedd; a**
- **llunio arfer da sydd ar gael yn eang.**

Ffactor hanfodol sy'n dylanwadu ar y broses o ddatblygu dull effeithiol ac ystyrlon o ymgysylltu â'r cyhoedd yw'r graddau y mae arweinwyr yn dangos ymrwymiad tuag at ddiwylliant sefydliadol mwy agored a chyfranogol. Am nad yw'r rhan fwyaf o gynghorau wedi ymgorffori a phrif ffrydio gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn llawn eto yn eu diwylliant sefydliadol na'u gweithgareddau partneriaeth, rydym yn argymell y canlynol:

**A2 Dylai cynghorau sefydlu a phrif ffrydio diwylliant sy'n grymuso dinasyddion i gydgynhyrchu gwasanaethau, yn ogystal â datblygu eu hymatebion eu hunain i'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu eu cymunedau.**

**A3 Mewn ymateb i'r cynigion ar gyfer cynllun Integredig Sengl, dylai cynghorau fanteisio ar y cyfle i weithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i ddatblygu dull strategol a chydgysylltiedig o ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd mwy o gydweithio yn galluogi cynghorau i ymgysylltu'n fwy effeithiol ac effeithlon drwy rannu adnoddau, lleihau achosion o ddyblygu a lleihau'r risg o ddiflastod ag ymgysylltu di-baid.**

**A4 Dylai cynghorau ystyried ffyrdd o wella eu systemau ar gyfer casglu a storio data ymgysylltu â'r cyhoedd, ar draws gweithgareddau'r cynghorau ac mewn cydweithrediad â Byrddau Gwasanaethau Lleol (gan ddefnyddio systemau data sefydledig lle bynnag y bo modd).**



## Argymhellion

Mae effeithiolrwydd gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael ei fesur gan amlaf gan gynghorau yn nhermau prosesau a thargedau rhifiadol. Mae angen i gynghorau fod yn gliriach ynglŷn â sut y bydd gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn cyfrannu at ganlyniadau defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau cymunedau. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu bod mesurau llwyddiant yn canolbwyntio ar yr hyn sydd wedi'i wella a'i gyflawni drwy weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Felly, rydym yn argymell y canlynol:

**A5 Dylai cynghorau atgyfnerthu rhesymeg, diben a dilysrwydd eu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ddatblygu dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Bydd hyn yn helpu i nodi'n gliriach pa ganlyniadau a thargedau y mae angen i gynghorau eu cyflawni drwy weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a helpu i nodi dulliau priodol o weithredu.**

Mae'r ffaith na roddir adborth defnyddiol ac ystyrlon i'r cyhoedd ar yr hyn sydd wedi newid o ganlyniad i weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn fater cyffredin sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o gynghorau. Mae diffyg ymwybyddiaeth hefyd, o fewn cynghorau, o farn aelodau'r cyhoedd am y diffyg cyfathrebu hwn. Mae angen i gynghorau hefyd allu dangos i ddinasyddion pa newidiadau a wnaed i wasanaethau, polisïau a phrosiectau o ganlyniad i weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Felly, rydym yn argymell y canlynol:

**A6 Dylai cynghorau geisio ffyrdd o wella ansawdd ac amseroldeb adborth a roddir i gyfranogwyr mewn gweithgarwch ymgysylltu a'r cyhoedd, gan gyfleu'n glir yr hyn sydd wedi newid a'r hyn nad yw wedi newid o ganlyniad i'r gweithgarwch ymgysylltu.**

Er bod llawer o gynghorau yn defnyddio technegau monitro a thargedau i geisio asesu pa mor dda y maent yn cyflawni gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, gellir gwneud mwy i nodi effeithiolrwydd ac ansawdd gweithgarwch ymgysylltu ac a yw wedi cyflawni'r canlyniadau dymunol. Argymhellwn y canlynol:

**A7 Dylai cynghorau gyflwyno neu addasu eu trefniadau rheoli perfformiad cyfredol, er mwyn nodi'n glir pa welliannau a chanlyniadau y maent am eu cyflawni a gwella ansawdd gweithgarwch monitro a gwerthuso.**

**A8 Dylai cynghorau sicrhau y gallant gasglu gwybodaeth allweddol am reoli perfformiad o ran gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a rhoi gwybod amdani, gan gynnwys: ei effaith ar bolisi a gwasanaethau; asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb; adborth cyfranogwyr; a nifer ac ystod y cyfranogwyr. Wrth roi gwybod am y data hwn dylid gwneud cysylltiadau clir â blaenoriaethau allweddol ac amcanion gwella cyngor.**

## Adran 1
## Mae cynghorau yn ymgymryd â chryn dipyn o weithgarwch ymgysylltu â’r cyhoedd, y mae rhywfaint ohono yn galluogi dinasyddion i helpu i lywio gwasanaethau





## Mae cynghorau yn ymgymryd â chryn dipyn o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, y mae rhywfaint ohono yn galluogi dinasyddion i helpu i lywio gwasanaethau

**1.1** Yn yr adran hon o'r adroddiad rydym yn ystyried y canlynol:

- **a** pa mor effeithiol yw cynghorau o ran rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd, gan gynnwys y defnydd a wneir o gyfryngau cymdeithasol a thechnoleg newydd;
- **b** i ba raddau y mae cynghorau yn canolbwyntio ar y broses ymgynghori hon heb ystyried dulliau amgen mwy defnyddiol neu ymarferol; a
- **c** pha mor ddatblygedig yw'r mathau mwy cydweithredol o weithgarwch ymgysylltu.

## Mae cynghorau yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i roi gwybodaeth i'r cyhoedd ac ymgynghori ag ef; fodd bynnag, mae safonau yn amrywio

**Arddangosyn 1: Rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ac ymgynghori ag ef**

Mae angen i gynghorau roi ***gwybodaeth*** glir a chryno y gall y cyhoedd gael gafael arni a'i deall yn hawdd. Mae'r wybodaeth hon, sy'n amrywio o wybodaeth iechyd y cyhoedd i gynllunio lleol, o weithgareddau hamdden i newidiadau i wasanaethau, yn bwysig i aelodau'r cyhoedd ac mae ganddynt hawl i ddisgwyl y bydd cynghorau yn ceisio rhoi newyddion a gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n gyfleus iddynt. At hynny, mae gwybodaeth dda yn allweddol i 'successful community involvement' sy'n 'based upon information and dialogue. Only an informed community can be part of the decision-making process.'[10]

Mae hefyd angen i gynghorau ***ymgynghori â'r*** cyhoedd pa fo'n briodol ac yn ystyrlon, er mwyn rhoi cyfleoedd i'r cyhoedd fynegi barn ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau a pholisi a helpu i ddylanwadu ar unrhyw newid neu ddatblygiad newydd. Diffiniad poblogaidd o ymgynghori yw ei fod yn 'structured public engagement which involves seeking, receiving, analysing and responding to feedback from stakeholders'. Mae a wnelo ymgynghori â cheisio barn y rhai sydd y tu allan i'r broses gwneud penderfyniadau, er mwyn llywio'r broses honno'n well.[11]

Fodd bynnag, gall fod cyfyngiadau i broses ymgynghori, am ei bod yn caniatáu 'a choice between pre-determined options, without the opportunity to propose alternatives'.[12]

---

10 Mae SMARTE.org Awst 2010. Mae SMARTe neu *Sustainable Management Approaches and Revitalisation Tools* yn wefan sy'n cynnwys syniadau ac adnoddau i helpu cymunedau i chwarae rôl weithredol yn y gwaith o adfywio ac 'adfywiogi' eu hardal.

11 CER Canolfan Gwybodaeth Fusnes, Iwerddon, 7 Medi 2007, CER/07/140.

12 Dyfyniad o *A Ladder of Participation* (Wilcox 1999).

## Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn dal i ddefnyddio dulliau sefydledig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd

**1.2** Er bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o ddulliau cyfathrebu electronig a chyfryngau cymdeithasol i roi gwybodaeth i'r cyhoedd, mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn dal i ddibynnu ar y dulliau technoleg isel mwy sefydledig. Mae'r dull hwn o weithredu yn hanfodol i sicrhau y rhoddir dewis i'r cyhoedd a chyfle i gael gafael ar wybodaeth, ac am na all tua 35 y cant o boblogaeth[13] Cymru ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig. Nodir isod y brif ffordd y mae cynghorau yn rhoi gwybodaeth i'w cyhoedd:

**a** Mae cylchlythyrau cynghorau a Byrddau Gwasanaethau Lleol yn dal i gael eu defnyddio'n helaeth i roi gwybodaeth i drigolion cynghorau, yn ogystal â thaflenni a deunydd cyhoeddusrwydd a ddosberthir drwy swyddfeydd, adeiladau a llyfrgelloedd cynghorau. Fodd bynnag, prin yw'r gwaith a wnaed i werthuso effeithiolrwydd deunyddiau wedi'u hargraffu fel dulliau o roi gwybodaeth i'r cyhoedd. Gall papurau newydd lleol hefyd fod yn ffynhonnell gwybodaeth, ar ffurf hysbysiadau cyhoeddus y talwyd amdanynt, tra bod rhai cynghorau yn darparu cyfraniadau rheolaidd gan uwch reolwyr neu gynghorwyr. Er enghraifft, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mae'r Prif Weithredwr neu Arweinydd y Cyngor yn rhoi'r newyddion diweddaraf am weithgareddau'r Cyngor.

**b** Mae 'cyfathrebu ar lafar' yn cael ei gydnabod o hyd, yn enwedig gan gynghorwyr, fel ffordd boblogaidd o roi gwybodaeth i'r cyhoedd. Mae cymorthfeydd a chyfarfodydd cynghorwyr neu gyswllt dyddiol rhwng staff cyngor rheng flaen a'r cyhoedd yn ddull cyffredin o roi gwybodaeth am wasanaethau. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, gofynnir i gasglwyr ysbwriel roi gwybodaeth am newidiadau i wasanaethau i drigolion wrth iddynt wneud eu casgliadau. Er mai prin yw'r gwaith a wneir gan gynghorau i werthuso pa mor dda y mae gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r cyhoedd, mae anecdotau gan swyddogion a chynghorwyr yn nodi ei fod yn helpu i feithrin cydberthnasau da â'r cyhoedd.

**c** Mae canolfannau cyswllt yn dod yn sianel sefydledig i roi gwybodaeth i'r cyhoedd ac, yn ei dro, dderbyn ymholiadau a chwynion gan y cyhoedd ynghylch gwasanaethau a pholisïau. Gall aelodau'r cyhoedd ffonio'r canolfannau neu alw heibio. Mae rhai cynghorau yn ceisio lleoli canolfannau cyswllt er mwyn sicrhau eu bod yn fwy hygyrch i'r cyhoedd, ond nid ydynt bob amser yn llwyddo i wneud hyn am ei bod yn dibynnu ar argaeledd, addasrwydd safleoedd cynghorau. Ar y cyfan mae'n rhaid i gynghorau ddefnyddio'r asedau a'r adnoddau sydd eisoes yn eu meddiant.

**ch** Mae defnydd cynyddol hefyd yn cael ei wneud o ddigwyddiadau tebyg i 'Sioeau-teithiol'. Mae'r fath ddigwyddiadau yn cynnig cyfleoedd i sgwrsio wyneb yn wyneb â'r cyhoedd a all, yn ei dro, gael gwybodaeth ac atebion yn uniongyrchol gan swyddogion a chynghorwyr. Gall 'sioeau teithiol' hefyd gael eu trefnu ar y cyd â phartneriaid Byrddau Gwasanaethau Lleol; er enghraifft, mae gwasanaethau tân ac achub wedi gweithio gyda gwasanaethau iechyd, tai a gofal cymdeithasol i hyrwyddo diogelwch yn y cartref.

---

13 Yn ôl y ffigurau diweddaraf o adroddiad Ofcom *Communications Market for Wales 2010*, gall 64 y cant o bobl ddefnyddio band eang yng Nghymru, yn amrywio o 62 y cant mewn ardaloedd trefol i 69 y cant mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru. Mae hyn islaw cyfartaledd y DU, sef 71 y cant. Diweddarwyd Mehefin 2011.



d Gall ymgyrchoedd a digwyddiadau marchnata hysbysu'r cyhoedd am newidiadau penodol i wasanaethau, neu gellir eu defnyddio i hyrwyddo newidiadau a awgrymwyd yn ymddygiad ac agwedd y cyhoedd. Mae'r ymgyrch 'Bro-garwyr Tra mad' gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n hyrwyddo ailgylchu ac osgoi ysbwriel ac sy'n annog pobl ifanc a'u cymunedau i ofalu am eu hamgylcheddd yn enghraifft dda. Fodd bynnag, gall y fath ymgyrchoedd ddefnyddio cryn dipyn o adnoddau ac weithiau mae'n anodd nodi'r canlyniadau a gyflawnwyd.

## Mae mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o wefannau a chyfryngau cymdeithasol i roi gwybodaeth i'r cyhoedd a rhyngweithio ag ef

1.3 Mae cynghorau yn ystyried bod gwefannau yn ddull allweddol o roi gwybodaeth i'r cyhoedd a gwella ac ehangu cyfleoedd i ymgynghori neu ryngweithio. Ymhlith y ffactorau ysgogi allweddol ar gyfer defnyddio gwefannau mae'r canlynol: awydd i roi gwybodaeth i gynulleidfaoedd newydd gan gynnwys pobl iau ac ennyn eu diddordeb; defnyddio adnoddau cymharol fach yn gosteffeithiol i gyrraedd cynulleidfa ehangach a rhoi gwybodaeth iddi; a hwylustod diweddaru gwybodaeth a chyhoeddi negeseuon brys. Mae rhywfaint o'r cynnydd hwn i'w briodoli i waith partneriaeth, gyda chymorth ac adnoddau a ddarparwyd gan bartneriaid Byrddau Gwasanaethau Lleol. Fodd bynnag, ceir cryn amrywio o hyd rhwng gwefannau cynghorau, o ran ansawdd a hygyrchedd gwybodaeth ac iaith, a'u gallu i 'ennyn diddordeb' y cyhoedd ac ymgynghori ag ef.

1.4 Fel rhan o'r astudiaeth, cynhaliwyd adolygiad byr o wefannau cynghorau a daethpwyd i'r casgliad eu bod yn effeithiol ar y cyfan o ran gwneud y canlynol: rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r cyhoedd am faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau a materion gweithredol; cael adborth gan y cyhoedd ar ansawdd gwasanaethau drwy gwynion a sylwadau; galluogi unigolion i dalu am wasanaethau; a rhoi gwybod am broblemau. Er bod gwefannau cynghorau yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar roi gwybodaeth i'r cyhoedd, mae mwy o gynghorau yn defnyddio eu gwefannau i annog y cyhoedd i gyflwyno ei sylwadau a'i brofiadau drwy eitemau 'dywedwch wrthym eich barn' ar eu gwefannau, er mwyn creu darlun o farn a phryderon cyfredol y cyhoedd.

1.5 Mae cynghorau hefyd yn ceisio barn ar effeithiolrwydd eu gwefannau drwy ddefnyddio arolygon Insight SOCITM[14] sy'n ceisio gwerthuso ansawdd gwefannau cynghorau drwy ofyn i ddefnyddwyr gyflwyno sylwadau ar wahanol gategorïau a meini prawf megis mynediad a defnyddioldeb. Mae sefydliad SOCITM yn darparu adroddiadau[15] ar effeithiolrwydd a llwyddiant gwefannau cynghorau ledled Cymru a Lloegr, gan wneud argymhellion y gall cynghorau weithredu arnynt i wella eu gwefannau.

1.6 Mae tua dau o bob tri chyngor yn defnyddio eu gwefannau i ymgynghori â'r cyhoedd yn rheolaidd, rhai yn helaeth, ac mae'n bosibl bod tri neu bedwar ymgynghoriad yn cael eu cynnal ar unrhyw adeg benodol. Mae nifer lai o gynghorau yn cydweithio â phartneriaid Byrddau Gwasanaethau Lleol, gan gydgysylltu cyfleoedd ymgynghori ar y cyd a chreu 'pyrth' ymgynghori[16]. Mewn rhai achosion, mae pyrth yn fwy effeithiol o ran darparu gwybodaeth am ymgynghoriadau na gwefan y cyngor ei hun.

14 SOCITM yw Cymdeithas y Rheolwyr Technoleg Gwybodaeth, y sefydliad proffesiynol ar gyfer rheolwyr TGCh yn y sector cyhoeddus.

15 Adroddiad diweddaraf gan SOCITM *Better connected 2010: a snapshot of all local authority websites* neu cysylltwch â www.socitm.net/insight

16 Mae 'porth' gwe yn derm, a ddefnyddir yn aml am wefan fyd-eang y bwriedir iddi fod yn fan cychwyn pwysig i ddefnyddwyr pan fyddant yn cysylltu â'r we. Gallant fod yn byrth cyffredinol neu arbenigol megis ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd.

Gall pyrth gynnwys ymgynghoriadau cyfredol yn ogystal ag ymgynghoriadau blaenorol ac arfaethedig, a bwriedir iddynt sicrhau bod y cyhoedd yn cael pob cyfle i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau a mynegi eu barn. Mae enghreifftiau yn cynnwys Holi Caerdydd, lle mae'r Cyngor, gyda phartneriaid ei Fwrdd Gwasanaethau Lleol, wedi datblygu gwefan benodol ar gyfer ymgynghori. Mae'r wefan yn cynnig cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch nifer o faterion sy'n effeithio ar y Cyngor, y Bwrdd Iechyd, yr heddlu a chyrff cyhoeddus eraill. Ceir enghreifftiau eraill hefyd gan gynnwys gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot Trafod CnPT. Cafwyd mai prin iawn yw'r cynghorau sy'n defnyddio gwefannau i roi adborth ar ganfyddiadau eu hymgynghoriadau, cyhoeddi canlyniadau arolygon neu ddiolch i gyfranogwyr; ond mae cynghorau sydd wedi rhoi pyrth ar waith yn nodi bod y fath waith yn mynd rhagddo.

**1.7** Mae nifer fach o gynghorau yn dechrau defnyddio eu gwefannau i annog cyfranogiad mwy arbenigol. Mae gwefannau craffu yn cael eu hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o sut y gall y cyhoedd gymryd rhan yn y prosesau craffu a goruchwylio. Er enghraifft, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gofyn i'r cyhoedd awgrymu pynciau i fod yn destun gwaith craffu yn y dyfodol neu gyflwyno sylwadau ar bynciau yr ymchwilir iddynt gan bwyllgorau craffu. Ceir hefyd enghreifftiau o wefannau penodol ar gyfer hyrwyddo gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd o ran pobl ifanc. Er enghraifft, wrth ddatblygu strategaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, lansiwyd sawl gwefan arbenigol i annog pobl ifanc i gyfrannu syniadau, megis *Youth4You* yng Nghaerffili.

**1.8** Er bod y cynnydd yn y wybodaeth a nifer yr ymgynghoriadau a geir ar wefannau fel arfer yn arwydd o barodrwydd i ymgysylltu â'r cyhoedd, ceir nifer o broblemau sy'n ymwneud â defnyddio gwefannau fel dulliau o ymgysylltu â'r cyhoedd:

- **a** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw dystiolaeth nac ymchwil bwysig ar gael sy'n nodi a yw gwefannau mewn gwirionedd yn gwella cyfathrebu neu'n cynyddu lefelau cyfranogiad y cyhoedd. Fodd bynnag, mae nifer fach o gynghorau bellach yn dechrau gofyn i'w trigolion sut yr hoffent i'r cyngor roi gwybodaeth iddynt neu ymgynghori â hwy, er mwyn helpu i asesu a all gwefannau neu wefannau rhwydweithio cymdeithasol wella ansawdd a lefelau cyfranogiad.

- **b** Ffactor sy'n gyffredin i bob cyngor yw'r swm cynyddol o wybodaeth a geir ar eu gwefannau. Mae pwysau i barhau i ychwanegu rhagor o wybodaeth, gyda chynghorau yn hyrwyddo eu gwasanaethau, cyhoeddi newidiadau i'w polisïau a'u strategaethau ac yn rhoi eu newyddion diweddaraf. Mae gwendidau o ran diwyg a chyfeirio at yr holl wybodaeth hon yn aml yn golygu ei bod yn anodd dod o hyd i wybodaeth ar wefannau.

- **c** Mae cynghorau yn gwneud mwy a mwy o ddefnydd o ymgynghoriadau ac arolygon ar y we ac mae'r rhain yn dod yn fwy datblygedig yn dechnolegol. Fodd bynnag, mae ymgynghoriadau ar y we yn aml yn cael eu hyrwyddo'n wael ac mae'r cyfraddau ymateb yn isel mewn llawer o gynghorau. Mae'r fath weithgarwch hyrwyddo yn arbennig o bwysig os yw'r pwnc yn un amhenodol ac nad yw'n effeithio'n uniongyrchol ar gymunedau na'r modd y darperir gwasanaethau, er enghraifft, ymgyngoriadau ar amcanion corfforaethol neu amcanion gwella.



At hynny, prin yw'r enghreifftiau lle mae cyfleoedd ymgynghori wedi'u targedu at gynulleidfa benodol er mwyn sicrhau bod y bobl briodol yn cael eu hysbysu o'u bodolaeth a'u hannog i gymryd rhan ydynt.

**ch** Mae cynghorau yn aml yn datgan eu bod yn bwriadu defnyddio gwybodaeth o ymgynghoriadau i lywio penderfyniadau a pholisi er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau trigolion. Fodd bynnag, yn aml ni roddir unrhyw wybodaeth nac adborth dilynol i'r cyhoedd neu mae'r wybodaeth a'r adborth a roddir yn aneffeithiol o ran dangos canlyniadau ymgyngoriad neu weithgaredd ymgysylltu a'i effaith ar benderfyniadau dilynol. (Gweler hefyd Adran 3 ar fater adborth.)

**1.9** Yn gyffredinol, gwelwyd yn aml nad yw gwefannau yn galluogi'r cyhoedd i ryngweithio â chynghorau o ddydd i ddydd, gwneud ymholiadau na mynegi barn ar faterion a phynciau cyfredol. Fodd bynnag, mae datblygiad gwefannau rhwydweithio cymdeithasol gan rai cynghorau yn cynnig ateb posibl i'r diffyg hwn. Gall gwefannau rhwydweithio cymdeithasol, y gellir eu cysylltu â gwefannau cynghorau, ddarparu dulliau amgen o gyfathrebu, ymgysylltu a rhyngweithio â thrigolion, a helpu i arbed costau am ei bod yn gymharol rad eu gweithredu fel arfer.

**1.10** Mae gwefannau rhwydweithio cymdeithasol megis *Facebook*[17] a *Twitter*[18], ynghyd â 'blogiau', yn cael eu defnyddio'n amlach gan gynghorau i annog trafodaeth â'r cyhoedd ynghylch gwahanol faterion, â llwyddiant amrywiol. Mae rhai yn seiliedig ar brosiectau ac weithiau fe'u defnyddir i ategu dulliau neu ddigwyddiadau ymgynghori traddodiadol, gan ddarparu dull amgen o ymgysylltu. Mae rhai eraill yn barhaol ac maent yn galluogi'r cyhoedd i gyflwyno sylwadau ar amrywiaeth o faterion. Mae cyfathrebu ar Twitter hefyd yn cael ei ddefnyddio i rybuddio a hysbysu'r cyhoedd am newyddion uniongyrchol megis newidiadau i wasanaethau neu dywydd garw.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - Gwybodaeth ar dudalen we 'Weather warning'**

Er mwyn helpu disgyblion ysgol a'u rhieni i osgoi teithiau diangen mewn tywydd garw, mae gan y Cyngor dudalen we benodol sy'n rhoi gwybodaeth rhybudd cynnar am dywydd garw, penderfyniadau i gau ysgolion ac unrhyw darfu ar wasanaethau. Mae'r system, sy'n cael ei defnyddio yn y gaeaf yn bennaf, yn wahanol i'r gwefannau traddodiadol sy'n cyhoeddi rhybuddion a gwybodaeth am dywydd garw am ei bod yn cael ei diweddaru gan benaethiaid ysgolion ar sail amser real ac fe'i diogelir gan gyfrinair. Gellir defnyddio technoleg gyfrifiadurol gartref a symudol wedyn i gael gafael ar y wybodaeth hon.

Gall y dudalen we helpu rhieni i gynllunio teithiau, trefnu gofal plant a gwneud trefniadau teithio priodol mewn tywydd peryglus. Mae'r dudalen we hefyd yn cael ei defnyddio gan y cyfryngau, fel yr unig ffynhonnell 'bona fide' o wybodaeth ar gyfer rhoi gwybod am ysgolion sydd wedi'u cau. Lansiwyd y system a luniwyd gan dîm datblygu gwe'r Cyngor ar y cyd â thimau cyfathrebu a diogelwch ysgol, yn llawn ym mis Tachwedd 2011. Ers hynny cafodd ei hymestyn i gynnwys darparwyr gofal meithrin a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol. Hyd yma, mae ei llwyddiant wedi'i mesur yn erbyn pa mor dda ac amserol y mae ysgolion yn cofnodi'r wybodaeth ar y we a'r adborth cadarnhaol gan blant a rhieni sydd wedi defnyddio'r system.

17 Mae 'Facebook' yn wefan rhwydweithio cymdeithasol a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer myfyrwyr coleg, ond sydd bellach yn agored i unrhyw un sy'n 13 oed neu drosodd.

18 Mae 'Twitter' yn system negeseua uniongyrchol boblogaidd iawn sy'n galluogi unigolyn i anfon negeseuon testun byr yn cynnwys hyd at 140 o nodau at restr o ddilynwyr. Mae 'trydar' yn derm sy'n disgrifio cyhoeddiad ar-lein, neges fer neu 'ficro-flog' a grëir gan un o ddefnyddwyr Twitter.

1.11 Yn yr un modd, mae negeseuon testun ffonau symudol hefyd yn cael eu defnyddio i roi gwybodaeth i aelodau'r cyhoedd sydd wedi cofrestru cais am newyddion a digwyddiadau parhaus, megis hysbysiad o waith ar y ffyrdd neu ffyrdd sydd wedi'u cau oherwydd eira. Yng Nghaerdydd, mae'r penderfyniad i 'we-ddarlledu'[19] cyfarfodydd y Cyngor yn galluogi'r cyhoedd i wrando a gwylio'r cyfarfodydd sy'n mynd rhagddynt. Gall y cyhoedd hefyd ddilyn y cyfarfodydd drwy *Twitter*. Ymddengys mai'r datblygiad hwn yw'r enghraifft gyntaf o'r dull hwn o weithredu yng Nghymru, er bod nifer o enghreifftiau tebyg yn Lloegr.

**Astudiaeth achos: Dinas a Sir Caerdydd – gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor**

Ers mis Medi 2008, bu Cyngor Caerdydd yn gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor yn fyw ar ei wefan. Mae gwe-ddarllediadau o gyfarfodydd hefyd yn cael eu harchifo ar y wefan er mwyn i bobl allu eu gwylio yn ddiweddarach. Mae'r wefan yn cynnwys cyfarfodydd y 12 mis blaenorol er y gellir trefnu gwylio cyfarfodydd cynharach ar gais. Ers dechrau darlledu cyfarfodydd y Cyngor, mae nifer gyfartalog yr unigolion sy'n gwylio cyfarfodydd yn fyw wedi dyblu ac mae nifer y cyfarfodydd wedi'u harchifo sydd wedi'u gwylio wedi cynyddu 300 y cant (www.cardiff.gov.uk/webcasting).

Mae'r penderfyniad i we-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor wedi galluogi trigolion Caerdydd ac unrhyw bartïon eraill â diddordeb i wylio cyfarfodydd ar-lein, gyda'r nod o wneud trafodion y Cyngor yn hygyrch ac yn dryloyw i gynulleidfa ehangach. Mae'r gwe-ddarllediadau wedi'u harchifo hefyd yn rhoi cofnod cywir o bob cyfarfod. Ar y cyd â gwe-ddarlledu, mae'r tîm ar-lein hefyd yn anfon negeseuon 'Twitter' yn nodi pwyntiau agenda, diweddariadau a dolenni i ddogfennau drwy gydol y cyfarfod ac yn ymateb i ymholiadau. Mae gweithgarwch 'Twitter' yn ystod cyfarfodydd wedi bod yn cynyddu'n araf wrth i ragor o aelodau o'r cyhoedd ddod yn ymwybodol o'r dull hwn o ymgysylltu.

## Ymgynghori yw'r prif weithgaredd ymgysylltu â'r cyhoedd er bod cynghorau yn defnyddio dulliau eraill â llwyddiant amrywiol

1.12 Cafwyd bod gan y rhan fwyaf o gynghorau brosesau eithaf sefydledig ar gyfer ymgynghori gan ddefnyddio nifer o ddulliau (fel y nodir ym Mharagraff 1.18). Mae rhai cynghorau wedi datblygu canllawiau corfforaethol neu 'becynnau cymorth' ymarferol, a luniwyd naill ai ganddynt hwy eu hunain neu mewn partneriaeth â'u Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

1.13 Mae 19 o'r 22 o gynghorau[20] hefyd yn cyflogi swyddogion arbenigol sydd fel arfer yn ymgymryd â phrosiectau ymgynghori corfforaethol, a hynny naill ai'n amser llawn neu'n rhan amser. Gallant hefyd roi cyngor a chymorth i weithgareddau ymgynghori sy'n seiliedig ar wasanaethau. Dengys ein tystiolaeth fod cydberthynas eithaf cryf rhwng nifer y cynghorau sydd wrthi'n datblygu dull mwy strategol o weithredu (pob un ohonynt ar wahanol gamau mae'n rhaid cyfaddef – o gam datblygedig iawn i gam ymchwiliol cynnar iawn) a nifer y cynghorau sy'n cyflogi swyddog arbenigol amser llawn.

1.14 Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i gynghorau gynnal nifer o ymgynghoriadau statudol, Ymhlith y rhain mae: datblygu eu hamcanion gwella; y Cynllun Datblygu Lleol; y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; gwasanaethau plant a phobl ifanc; a rhaglenni moderneiddio ysgolion.

1.15 Mae prosesau ymgynghori statudol bellach yn sefydledig yn y rhan fwyaf o gynghorau, ond mae cyfraddau ymateb yn aml yn wael iawn. Mae nifer fach o gynghorau yn ceisio sicrhau bod yr ymgynghoriadau statudol hyn yn fwy perthnasol i'r cyhoedd drwy eu cysylltu â materion cymunedol penodol neu drwy fabwysiad dull ymgynghori mwy arloesol. Fodd bynnag, mewn llawer o gynghorau, collir

19 Mae gwe-ddarlledu yn golygu defnyddio'r rhyngrwyd i ddarlledu darllediadau sain a/neu fideo byw neu wedi'u gohirio, yn debyg iawn i ddarllediadau teledu a radio traddodiadol. Fel arfer mae'n rhaid i ddefnyddwyr feddu ar y cymhwysiad cyfrifiadurol amlgyfrwng priodol er mwyn gwylio gwe-ddarllediad.

20 Yn gywir ar adeg gwneud y gwaith maes.



cyfleoedd i ddefnyddio'r ymgynghoriadau statudol hyn i nodi safonau arfer da ac i dreialu datblygiadau arloesol.

**1.16** Hyd yn oed yn achos gwasanaethau anstatudol mae'r rhan fwyaf o gynghorau o'r farn mai ymgynghoriadau yw'r prif weithgaredd ymgysylltu â'r cyhoedd. Fe'u hystyrir yn gam allweddol o ran helpu i hyrwyddo dealltwriaeth a cheisio barn y cyhoedd ar newidiadau arfaethedig i bolisïau neu wasanaethau.

**1.17** O ran y math o ymgynghoriadau a ddefnyddir, cafwyd bod y rhan fwyaf o gynghorau yn tueddu i ddefnyddio'r dulliau mwy traddodiadol megis arolygon a holiaduron. Mae nifer o ffactorau yn cyfrannu at hyn, gan gynnwys y ffaith bod yn well gan gynghorau beidio â mentro a diffyg adnoddau, arbenigedd a gallu i fod yn fwy arloesol. Fel gyda'r ymgynghoriadau statudol, mae cyfraddau ymateb y cyhoedd yn aml yn isel ac mae cynghorau yn aml yn ystyried bod hyn yn arwydd o ddifaterwch y cyhoedd tuag at gyfleoedd i gyfranogi. Fodd bynnag, gwelwyd yn aml nad yw cynghorau yn cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd cyn ymgynghori er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad. Gall y fath ymgyrchoedd: ehangu apêl yr ymgynghoriad ac ennyn diddordeb ynddo; pwysleisio diben yr ymgynghoriad/gweithgarwch ymgysylltu; pwysleisio pa mor bwysig yw barn y cyhoedd i'r penderfyniadau sydd i'w gwneud; ac esbonio'r rhan y mae aelodau'r cyhoedd yn ei chwarae yn y broses.

**1.18** Nodir isod y mathau mwyaf poblogaidd o brosesau ymgynghori a ddefnyddir ar hyn o bryd:

**a** Mae paneli dinasyddion yn dal i fod yn eithaf cyffredin ac mae cynghorau yn tueddu i'w defnyddio fel pwyntiau cyswllt cyntaf i gael barn y cyhoedd. Fodd bynnag, nodwyd bod rhai cynghorau yn ystyried eu dileu'n raddol am eu bod yn defnyddio gormod o adnoddau ac nad ydynt o bosibl yn adlewyrchu barn y cyhoedd am nad ydynt yn groestoriad gwirioneddol o broffil poblogaeth leol.

**b** Mae arolygon yn amrywio cryn dipyn o ran eu natur a'u diben ac maent yn cynnwys y canlynol: arolygon o drigolion, a gynhelir bob dwy i bedair blynedd, er mwyn casglu barn cymaint â phosibl o bobl leol ar amrywiaeth o faterion megis lefelau perfformiad cyfredol y cyngor a/neu gynlluniau strategol ar gyfer y dyfodol. Arolygon a/neu ddigwyddiadau ymgynghori corfforaethol sy'n canolbwyntio ar un mater pwysig neu hanfodol megis blaenoriaethu'r gyllideb neu ddatblygu'r 'cynllun integredig sengl'[21]. Mae rhaglen gynlluniedig o arolygon wedi'u targedu yn cael ei defnyddio fwyfwy gan rai cynghorau i helpu i greu cronfa ddata barhaus. Mae'r broses barhaus hon o ymgynghori ac ymgysylltu yn helpu i lywio a dilysu amcanion gwella neu themâu strategaethau cymunedol cynghorau.

**c** Defnyddir grwpiau, cyfarfodydd cyhoeddus a sioeau teithiol yn aml fel digwyddiadau rhagarweiniol i roi gwybodaeth i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn proses ymgynghori am y materion allweddol; neu fel digwyddiadau ymgynghori annibynnol. Mae grwpiau ffocws neu fforymau yn canolbwyntio ar themâu neu amcanion penodol ac maent naill ai'n ddigwyddiad untro neu'n drefniant parhaus. Mae sioeau teithiol ac arddangosfeydd yn dod yn fwyfwy poblogaidd ac maent wedi'u defnyddio i drafod blaenoriaethu cyllidebau neu amcanion gwella. Mae rhai unigolion a gafodd eu cyfweld o'r

---

21 Bwriedir i'r 'cynlluniau integredig sengl' sy'n cael eu cyflwyno ddisodli'r pedwar cynllun a'r pedair strategaeth bresennol, gan leihau cymhlethdod a dyblygu, a rhyddhau adnoddau, a gwella canlyniadau pobl sy'n byw yn eu cymunedau. Mae'n rhaid i'r gwaith o'i ddatblygu gael ei ategu gan barodrwydd i gynnwys dinasyddion yn y broses o ailystyried, ailgynllunio a gweithredu newidiadau i'r system gyfan. (Llywodraeth Cymru *Cydamcanu, Cydymdrechu* 2012.)

farn bod presenoldeb prif swyddogion a chynghorwyr yn y digwyddiadau hyn yn gwella hygrededd y cyngor i geisio barn y cyhoedd a gwrando arni.

**ch** Mae cyfarfodydd 'wyneb yn wyneb' yn enghreifftiau o 'gysylltiad mwy personol' ac maent yn cynnwys swyddogion cyngor yn cnocio ar ddrysau i gael cefnogaeth i wasanaethau penodol neu geisio barn arnynt, megis ailgylchu neu wasanaethau wardeiniaid ar gyfer tai gwarchod. Mae ymgynghori â chymheiriaid yn enghraifft arall o'r dull hwn o weithredu. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae pobl ifanc yn cael eu hyfforddi'n arbennig gan y Cyngor i ymgynghori â'u cymheiriaid mewn cynghorau cyfagos ar faterion sy'n ymwneud â'r Strategaeth Plant a Phobl Ifanc ac â phlant ifanc iawn (gweler yr astudiaeth achos nesaf). Roedd y Cyngor o'r farn y byddai'r bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy yn fwy tebygol o siarad yn agored ag unigolion yn eu grŵp oedran eu hunain.

**d** Cynllunio a darparu gwasanaethau: defnyddir canolfannau galw weithiau i ofyn am farn ychydig gannoedd o bobl dros y ffôn er mwyn cael 'mesur tymheredd' mwy uniongyrchol o'r farn gyfredol ar fater sy'n ymwneud â gwasanaeth penodol. Mae nifer fach o gynghorau yn ystyried bod ailstrwythuro prosesau busnes, lle y caiff gwasanaeth ei ddadansoddi fesul cam i weld sut y gellir ei wella, yn gyfle i gynnwys y cyhoedd. Mae defnyddwyr yn cael eu cynnwys i helpu i ailgynllunio gwasanaeth ac felly gallant ddylanwadu'n uniongyrchol ar ba ganlyniadau a ddylai gael eu cyflawni drwy ddarparu gwasanaethau, yn eu barn hwy.

**Astudiaeth achos: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Hyfforddi pobl ifanc fel cyfwelwyr i ymgysylltu â phlant iau**

Arweinir gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol ac fe'i cefnogir gan swyddogion yn y Tîm Gwella Corfforaethol. Mae Strategaeth Plant a Phobl Ifanc y Cyngor yn datblygu trefniadau ymgynghori effeithiol ar gyfer plant ifanc iawn, sy'n cynnwys hyfforddi pobl ifanc fel cyfwelwyr. Mae'r Cyngor wedi comisiynu ymchwil i faes ymgynghori â phlant cyn oedran ysgol i helpu i ddatblygu ei ddulliau ymgynghori ar gyfer y grŵp oedran hwn.

Cynhaliodd Swyddog Datblygu Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs', mewn partneriaeth â Genesis (Pen-y-bont ar Ogwr) a Strategaeth Plant a Phobl Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr, adolygiad o lenyddiaeth bresennol ar ddulliau cyfranogi plant. Anfonwyd holiadur i 175 o leoliadau gofal plant ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, i ganfod pa ddulliau a oedd yn cael eu defnyddio bryd hynny i gynnwys plant mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Buwyd yn arsylwi mewn pum lleoliad gofal plant cynrychioliadol, a ddewiswyd ar sail yr ymatebion i'r holiadur. Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ystod 'Diwrnod Hwyl' Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Ebrill 2009. Cafodd dulliau cyfranogi dethol eu treialu mewn pum lleoliad gofal plant.



## Mae enghreifftiau o ddulliau mwy cydweithredol o ymgysylltu, gan gynnwys ‘cydweithio’ a ‘grymuso’r’ gymuned yn eithaf prin ond mewn rhai achosion maent wedi cael effaith gadarnhaol ar y modd y darperir gwasanaethau ac ar gymunedau

**1.19** Mae dulliau mwy cydweithredol o ymgysylltu yn cynnwys y canlynol:

- **a** penderfynu ar y cyd – lle mae unigolion a chynghorau yn cydweithio i rannu barn, llunio opsiynau ar y cyd a chytuno ar gamau i’w cymryd;
- **b** gweithredu ar y cyd – pobl yn gweithio gyda chynghorau i wneud penderfyniadau a helpu i gymryd y camau y cytunwyd arnynt; a
- **c** chefnogi mentrau lleol – lle mae cynghorau yn helpu grwpiau i ddatblygu a gweithredu eu hatebion eu hunain – hynny yw, grymuso.[22]

**Arddangosyn 2: Pwysigrwydd cydweithio agos**

Mae trefniadau cydweithio agos yn bwysig am fod:

‘involving local people in designing and developing services brings greater creativity and innovation... successful community involvement works across the board for all community groups and so improves access to services for marginalised and vulnerable people’.

‘Drwy ganolbwyntio ar y cwsmer ac ymgysylltu â’r gymuned, gall eich cyngor ddarparu’r gwasanaethau mwyaf priodol i’ch cwsmeriaid gan ddefnyddio’r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i chi. Drwy fod yn agos at eich cymuned ac ymgysylltu â hi byddwch yn helpu pobl leol i fod yn ymwybodol o’r cyfyngiadau ar eich adnoddau a’r penderfyniadau anodd y bydd angen i chi eu gwneud o bosibl. Mae hefyd yn bwysig, os penderfynwch beidio â darparu gwasanaeth penodol, eich bod yn cyfleu’r rhesymau dros eich penderfyniadau’.[23]

### Mae fforymau a grwpiau â thema bellach yn ddulliau cyfranogi sefydledig yn y rhan fwyaf o gynghorau

**1.20** Mae cynghorau yn defnyddio dulliau megis grwpiau a fforymau â thema i annog mwy o gydweithio â’r cyhoedd ac i’w helpu i chwarae rhan lawnach mewn trafodaethau ynghylch datblygu polisi a darparu gwasanaethau. Mae’r fath grwpiau wedi’u sefydlu’n gadarn yn y rhan fwyaf o gynghorau ac maent bellach yn elfen bwysig o brosesau ymgynghori manwl a threfniadau cydweithio achlysurol. Drwy roi cyfle i wirfoddolwyr awgrymu atebion i broblemau lleol, maent yn helpu i hyrwyddo buddiannau rhannau penodol o’r boblogaeth megis pobl ifanc a phobl hŷn.

**1.21** Mae ychydig o gynghorau wedi trefnu i’r fath grwpiau gyfarfod â Phwyllgor eu Cabinet neu eu Pwyllgor Craffu yn rheolaidd er mwyn cyflwyno sylwadau a syniadau. Mae’r trefniant hwn yn bwysig i annog ymgysylltu â’r grwpiau a’r fforymau dros y tymor hwy ac yn barhaus, a rhoi sicrwydd i’r cyfranogwyr bod eu cyfraniadau yn cael eu gweld yn dylanwadu ar y broses gwneud penderfyniadau.

---

22 Dyfyniad o *A Ladder of Participation* (Wilcox 1999).

23 O *Benefits of investing in community empowerment*, Mawrth 2010, IDeA.gov.uk

1.22 Mae cynnal y fath grwpiau yn gofyn am gryn fuddsoddiad gan gynghorau, o ran cymorth staff ac arian. Mae'r buddsoddiad hwn yn sicrhau fod gan grŵp y gallu a'r adnoddau i fod yn effeithiol. Mae cyfranogwyr grwpiau yn debygol o fod yn uchel eu cymhelliant ac yn hyddysg, ac mae'r trosiant yn aml yn isel ac felly fe'u cedwir ar yr un grŵp am beth amser. Mae rhai cynghorau yn 'adnewyddu' aelodaeth grwpiau bob rhyw bedair blynedd er mwyn annog gwirfoddolwyr newydd.

1.23 Fodd bynnag, lleisiwyd pryderon gan rai unigolion a gyfwelwyd, o sefydliadau partner, ac mewn cynghorau, ynghylch natur gynrychioliadol y fath grwpiau, am fod cyfranogwyr yn wirfoddolwyr ac felly ni ellir ystyried eu bod yn 'cynrychioli' yn ffurfiol unrhyw safbwyntiau a arddelir gan eu cymunedau. Yn amlach na pheidio nid oes gan y grwpiau hyn gylch gorchwyl ffurfiol a allai helpu i nodi eu rôl, eu cylch gwaith a'u cyfyngiadau yn gliriach. Yn yr Alban, mae'r Llywodraeth wedi datblygu Deg Safon ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r Safonau, a lansiwyd yn 2005, wedi'u hyrwyddo i helpu grwpiau a sefydliadau cymunedol yn yr Alban i asesu eu rôl a'u harferion eu hunain fel cyfryngau effeithiol i ymgysylltu â'r gymuned.

1.24 Yn gyffredinol, ymddengys fod grwpiau a fforymau â thema yng Nghymru yn cael effaith gadarnhaol. Mae cynghorau yn eu hystyried yn bwyntiau cyswllt defnyddiol i brofi barn y cyhoedd ar fater perthnasol sy'n ymwneud â gwasanaethau neu'r gymuned a nododd aelodau fforymau a gyfwelwyd fod y profiad yn un diddorol a gwerthfawr. Ond credwn ei bod yn bwysig bod y mentrau hyn yn ategu gweithgarwch ymgysylltu ehangach a mwy cynrychioliadol.

## Ceir enghreifftiau lle mae cynghorau yn defnyddio gweithgarwch ymgysylltu a allai gael effaith gadarnhaol ar allu a hyder unigolion a'u cymunedau

**Arddangosyn 3: Kafka Brigade – astudiaethau peilot mewn pedwar cyngor yng Nghymru**

Mae Kafka Brigade yn dîm ymchwil annibynnol nid er elw sy'n canolbwyntio ar brofiadau dinasyddion penodol i helpu i nodi a datrys problemau allweddol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau. Mae'n defnyddio 'action research methods to draw general lessons from an individual citizen's case in order to help determine where and why bureaucracy has broken down'. Cymerodd pedwar cyngor yng Nghymru ran mewn prosiectau peilot a edrychodd ar sefyllfaoedd gwasanaethau penodol lle roedd angen gwelliannau. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, canolbwyntiwyd ar y broses o drosglwyddo o wasanaethau plentyn-ganolog i wasanaethau i oedolion ar gyfer pobl ifanc ag anableddau. Canolbwyntiodd Caerdydd ac Abertawe ar wasanaethau i bobl ifanc 'Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET); a chymhwysodd Rhondda Cynon Taf ddull Kafka at faes cam-drin yn y cartref. Ymhlith y casgliadau allweddol a ddeilliodd o'r prosiectau peilot roedd y canlynol:

- y gall ailgynllunio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd fod yn ffordd effeithiol o ddatrys materion anodd;
- pwysigrwydd mewnbwn, arweiniad a chyfeiriad disgybledig gan uwch swyddogion ac arweinwyr gwleidyddol i sicrhau cefnogaeth, annog ymrwymiad parhaus drwy esiampl a rhoi hyder i staff fod yn eofn ac yn arloesol;
- gwerth ffurfioli'r trefniadau ar gyfer atebolrwydd a throsolwg yn gynnar – pwysigrwydd nodi pa unigolyn/sefydliadau oedd yn berchen ar y prosiect ac yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu atebion; a
- phwysigrwydd llifau cyfathrebu effeithiol ar draws ffiniau sefydliadol.



**1.25** Nodwyd nifer o weithgareddau a phrosiectau ymgysylltu a oedd yn cael eu cynnal gan gynghorau yn benodol i gael effaith fuddiol ar y rhai a oedd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd ymgysylltu. Roedd y fath weithgareddau yn annog unigolion a chymunedau i gyfranogi, meithrin eu hyder a'u gallu ac adeiladu ar 'gyfalaf cymdeithasol' a oedd yn gwella[24]. Mae'r fath enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- **a** Cymorth wardeiniaid llifogydd yn Llanrwst yn Nyffryn Conwy i helpu i baratoi cymunedau sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd ac wedyn cynorthwyo'r broses adfer.
- **b** Cymunedau sy'n datblygu ac yn gweithredu eu hatebion ynni amgen eu hunain, megis Dyffryn Angidy ger Tyndyrn yn Sir Fynwy, lle mae trigolion wedi helpu i ddatblygu cynllun trydan dŵr lleol.
- **c** Yn Sir Benfro, mae prosiect cymunedol FRAME yn ailgylchu dodrefn meddal (a ariennir gan y Cynllun Ailgylchu Strategol) ac mae wedi dangos ei fod yn gweithredu mewn modd proffesiynol ac effeithiol. Mae'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr medrus a brwdfrydig sy'n gallu hyfforddi pobl eraill a meithrin eu gallu er mwyn helpu i gynnal y prosiect.
- **ch** Yn Rhuthun, Sir Ddinbych, helpodd y gymuned i benderfynu sut y dylid gwario swm o arian i wella cyfleusterau hamdden ym Mharc Cae Ddôl yn sgîl symud hen bwll padlo (gweler yr astudiaeth achos nesaf).

**Astudiaeth achos: Cyngor Sir Ddinbych – cynnwys Cymuned Cae Ddôl**

Mae Cae Ddôl yn barc poblogaidd yn Rhuthun ond roedd angen adnewyddu'r cyfleusterau. Yn 2009, bu'n rhaid i'r Cyngor ddymchwel pwll padlo poblogaidd, am resymau iechyd a diogelwch ac oherwydd y gost a oedd yn gysylltiedig â'i adnewyddu.

Roedd cryn dipyn o wrthwynebiad i'r penderfyniad hwn ymhlith llawer o drigolion. Cyfarfu'r Cyngor â thrigolion i drafod y sefyllfa a chyfnewid gwybodaeth a sylwadau yn ddidwyll ac yn agored. Bu'r ddeialog hon yn fodd i gael gwared â llawer o'r drwgdeimlad ar y dechrau a daethpwyd i well dealltwriaeth, gan gynnwys cynnig proses gyllidebu gyfranogol. Cafodd y trigolion gyfle i gynnig cynlluniau amgen yn lle'r pwll padlo. Yn sgîl cynnig grant o £25,000 i ariannu cynlluniau llwyddiannus, ffurfiwyd gweithgor o swyddogion, cynghorwyr a gwirfoddolwyr cymunedol o bob oedran. Cyflwynodd trigolion dros 30 o gynigion ar gyfer y parc a chafodd y gweithgor y dasg o brisio, profi a gwerthuso pob prosiect. Ar ddechrau mis Tachwedd 2009, cyflwynwyd rhestr fer o gynlluniau i'r gymuned gyfan a bleidleisiodd i ddewis y rhai mwyaf poblogaidd. Drwy gydweithio, yn ogystal â gwella cyfleusterau chwarae, llwyddwyd i sicrhau bod plant a thrigolion yn teimlo eu bod yn chwarae mwy o ran yn y penderfyniadau ac felly eu bod wedi'u grymuso'n fwy. Yn ddiau gwnaeth pobl iau gyfraniad amhrisiadwy at lwyddiant cyffredinol y prosiect.

Roedd swyddogion a chynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych wedi datblygu cydberthynas waith gref â'r gymuned leol ac roedd pob un ohonynt wedi meithrin mwy o barch at gyfrifoldebau a galluoedd y llall a mwy o ddealltwriaeth ohonynt. [25]

Hoffai cymuned Rhuthun ailadrodd y broses, os bydd yn bosibl, gyda ffrydiau arian eraill.

24 Diffinio cyfalaf cymdeithasol: 'Whereas physical capital refers to physical objects and human capital refers to the properties of individuals, social capital refers to connections among individuals – social networks and the norms of reciprocity and trustworthiness that arise from them. In that sense, social capital is closely related to what some have called 'civic virtue. The difference is that 'social capital' calls attention to the fact that civic virtue is most powerful when embedded in a 'sense' network of reciprocal social relations. A society of many virtuous but isolated individuals is not necessarily rich in social capital.' (Putnam 2000: 19).

25 Dyfyniad o werthusiad Cyngor Sir Ddinbych o fenter ymgysylltu â'r gymuned Cae Ddôl.

**1.26** Hefyd yn Sir Ddinbych, ond ar raddfa lawer mwy, nid yn unig yr ymgynghorodd arolwg 'Y Ddadl Fawr' â thrigolion ynghylch y 'Cynllun Mawr' newydd[26], ond aeth ati hefyd i geisio sicrhau cyfranogiad parhaus gan gymunedau. Drwy grwpiau gwirfoddol, y Grwpiau Aelodau Ardal newydd a ffurfiwyd yn ddiweddar[27] a gwell rhyngweithio ar y we, mae cymunedau yn cael cyfle i ddod yn fwy hyddysg, parhau â'r drafodaeth a chyflwyno sylwadau a syniadau yn barhaus. Dylai'r dull hwn o weithredu alluogi cymunedau i wneud cyfraniad mwy cynhyrchiol a pherthnasol tuag at ddatblygu'r 'Cynllun Mawr'.

**1.27** Nodwyd llai o enghreifftiau o drefniadau cydweithio a 'phartneriaeth' gyhoeddus tymor hwy a allai gynnig cyfleoedd parhaus i gymunedau gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau neu ddatrys problemau sy'n mynd rhagddynt. Fodd bynnag, mae Grŵp Cyfranogiad Tenantiaid Tai a Lesddeiliaid Wrecsam, sy'n bodoli ers 2004, yn galluogi cynrychiolwyr tenantiaid i weithio'n agos gyda swyddogion a chynghorwyr yn barhaus er mwyn gwella gwasanaethau (gweler yr astudiaeth achos nesaf).

**Astudiaeth achos: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Gweithio gyda thenantiaid yn yr hirdymor**

Yn 2004, pleidleisiodd tenantiaid i gadw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn landlord iddynt. Mewn ymateb, lluniodd y Cyngor strategaeth ymgysylltu hirdymor gynhwysfawr i gefnogi cyfranogiad gan denantiaid a lesddeiliaid.

Nod y strategaeth oedd cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i denantiaid a lesddeiliaid gyfranogi, naill ai drwy grwpiau neu fel unigolion. Roedd y cyfleoedd cyfranogi hyn yn amrywio o gael gwybodaeth i ddod yn aelod llawn o Bartneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wrecsam. Roedd y strategaeth hefyd yn ceisio annog, cefnogi a galluogi tenantiaid i gyfranogi a chymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a pharhau i wella prosesau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth â phob tenant a lesddeiliad.

Ystyriwyd bod creu Partneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wrecsam yn ffactor allweddol o ran gweithredu'r Strategaeth. Mae'n cynnwys nifer gyfartal o gynghorwyr etholedig a chynrychiolwyr tenantiaid. Ei rôl yw: monitro Gwasanaethau Landlord y Cyngor ac unrhyw wasanaethau a ddarperir sy'n effeithio'n uniongyrchol ar denantiaid; ystyried polisïau a chynllunio sy'n effeithio ar denantiaid a gwneud argymhellion arnynt i Fwrdd Gweithredol y Cyngor; a pharhau i hyrwyddo ac annog cyfranogiad tenantiaid a lesddeiliaid. Cyflëir gwybodaeth ac argymhellion sy'n deillio o gyfarfodydd y Bartneriaeth i denantiaid drwy gylchlythyrau a gwefan y Cyngor.

Cafwyd llwyddiant cymysg. Mae cyflwr cyffredinol y stoc dai wedi dirywio yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf oherwydd diffyg arian cyfalaf. Fodd bynnag, mae'r Bartneriaeth wedi llwyddo i helpu i wella gwasanaethau tai ac mae wedi'i gydnabod a'i werthfawrogi gan denantiaid. Mewn arolwg ym mis Awst 2010, mynegwyd eu boddhad â nifer o feysydd megis: gwaith atgyweirio o ddydd i ddydd; cyflwr eu tai ac ymdrechion i wella'r stoc dai; y cyswllt parhaus â Gwasanaethau Landlord; ac ansawdd trefniadau cyfranogi tenantiaid.

26 Enw Cyngor Sir Ddinbych ar ei Gynllun Integredig Sengl.

27 Disgrifir Grwpiau Aelodau Ardal yn fanylach ym mharagraff 1.28c



1.28 Mae trafodaethau gyda nifer o grwpiau yn ystod ein hastudiaeth wedi rhoi tystiolaeth uniongyrchol o well 'cyfalaf cymdeithasol'. Nodwyd nifer o achosion, gweler isod, lle mae grwpiau nid yn unig yn cael effaith o ran gwella gwasanaethau ond yn ystyried eu bod hefyd yn cael budd o ganlyniad i hynny.

a Gwnaeth pobl ifanc a oedd yn cymryd rhan mewn 'fforymau ieuenctid' neu ddigwyddiadau ymgysylltu argraff arnom oherwydd eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion cyfoes, eu dealltwriaeth o'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithio a'u hawydd i barhau i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a gwella gwasanaethau. Mae'r grŵp oedran hwn hefyd wedi'i dargedu'n arbennig gan fenter a chynllun gwobrwyo *Bro-garwyr Tra Mad* Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sy'n annog plant ysgol i ofalu a meddwl am yr amgylchedd yn eu cymunedau. Mae tystiolaeth gref bod y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y fenter hon yn cael budd uniongyrchol o'r gweithgarwch ymgysylltu, drwy feithrin hyder a sgiliau siarad yn gyhoeddus a'u bod yn datblygu'n 'genhadon' dros eu cymunedau. Roedd gan Fforwm Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful safbwyntiau cryf ar gynigion ar gyfer moderneiddio'r ddarpariaeth addysg yn yr ardal, a fynegwyd yn huawdl gan aelodau'r fforwm. Cafwyd bod gan aelodau'r Fforwm Ieuenctid gymhelliant cryf i gefnogi newidiadau a gwelliannau ar gyfer eu hysgolion a'u cymunedau.

b Mae'r grŵp rheoli cymdogaethau yn gysyniad sy'n datblygu sy'n annog ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn grymuso cyfranogwyr. Mae nifer fach o gynghorau naill ai'n dechrau sefydlu'r fath grwpiau neu'n ystyried eu cyflwyno. Mae'r grwpiau hyn yn aml yn seiliedig ar bartneriaeth â themâu sefydledig, megis fforymau Diogelwch Cymunedol, ond bwriedir rhoi mwy o bwerau iddynt fynd i'r afael â phroblemau a heriau penodol sy'n wynebu eu cymuned. Mae'r gwaith o ddatblygu'r grwpiau hyn yn dal i fynd rhagddo ac felly ni ellir gwerthuso eu heffeithiolrwydd yn llawn eto.

c Fformat arall ar gyfer gwella gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned, sy'n cael ei ystyried neu ei ddatblygu mewn rhai cynghorau yw'r Fforwm Ardal neu'r Grŵp Aelodau Ardal, lle mae cynghorwyr o wardiau cyfagos yn dod at ei gilydd i drafod materion a phryderon lleol a llunio camau gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â materion lleol. Gallai'r grwpiau hyn greu cysylltiadau agosach rhwng y cyngor a chymunedau drwy gynnig llwyfan ar gyfer deialog reolaidd a gynlluniwyd rhwng cynghorwyr a'r cyhoedd. Fodd bynnag, fel gyda grwpiau rheoli cymdogaethau, megis cychwyn y maent yng Nghymru, ac nid ydynt wedi ennill plwyf eto.

1.29 Yn gyffredinol, fodd bynnag, nodwyd bod cynghorau yn ei chael yn anodd dangos yn glir fod unrhyw welliant o ran hyder a gallu unigolion sy'n cyfranogi i'w briodoli i ymdrechion y cyngor. Felly mae nifer o gynghorau yn ceisio datblygu mesurau a chanlyniadau[28], a allai helpu i ddangos effaith gadarnhaol gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ar yr unigolion sy'n cymryd rhan a'u cymunedau.

28 Ystyrir mater gwerthuso effeithiolrwydd gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn fanylach yn Adran 3 o'r adroddiad.

## Ceir enghreifftiau o arfer da lle mae gwasanaethau yn ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu er mwyn cyrraedd yr aelodau hynny o'r gymuned sy'n fwy agored i niwed ac 'nas gwelir yn aml'

**1.30** Yn achos y gwasanaethau hynny sy'n gweithio gyda phobl sy'n agored iawn i niwed, mae gweithgarwch ymgysylltu a meithrin cydberthnasau effeithiol yn hanfodol i ddarparu gofal tra sensitif a chynorthwyo'r defnyddwyr gwasanaethau hynny sydd â'r anghenion mwyaf yn effeithiol. Er mwyn cynnig gwasanaeth hyfyw, mae angen i staff feithrin cydberthnasau sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth, hyder a hygrededd. Mae'n rhaid i staff hefyd sicrhau bod y dull ymgysylltu a ddefnyddir yn diwallu anghenion ac yn bodloni gofynion defnyddwyr eu gwasanaethau, sy'n aml yn wynebu argyfwng difrifol yn eu bywydau. Felly, mae gwybodaeth drylwyr am sefyllfa ac anghenion defnyddwyr eu gwasanaethau yn hanfodol er mwyn cynllunio a gweithredu'r ymateb priodol.

**1.31** Mae nifer o gynghorau yn cydnabod y gallai gweithgarwch ymgysylltu effeithiol, yn enwedig os caiff ei gyflawni drwy waith partneriaeth da, megis gyda'r sector gwirfoddol, helpu i gau'r bwlch rhwng y bobl leiaf breintiedig a'r bobl fwyaf breintiedig yn eu hardaloedd. Gallai'r fath weithgarwch ymgysylltu hefyd helpu i wella cynhwysiant cymdeithasol a datblygu diwylliant o werthoedd cyffredin.

**1.32** Mae nifer o bartneriaethau cymunedol yn gweithio'n agos gyda chynghorau a rhanddeiliaid i helpu i lywio ansawdd gwasanaethau a'r modd y'u darperir a gwneud gwell defnydd o adnoddau. Mae'r partneriaethau hyn hefyd yn cyfrannu at y gwaith o wella amgylchiadau cymdeithasol yn eu cymunedau, megis ar gyfer y rhai sy'n dioddef oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol neu gyffuriau. Er enghraifft, yn Sir Fynwy, roedd gwell gwaith ymgysylltu drwy bartneriaeth diogelwch cymunedol wedi cyd-daro â lleihad yn nifer y troseddau treisgar y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2010.

**1.33** Mae teuluoedd mewn angen sy'n agored i niwed hefyd wedi elwa o gael mwy o gyfleoedd i ddylanwadu ar y math o wasanaethau y gallant eu disgwyl gan gynghorau ac asiantaethau partner ac ansawdd y gwasanaethau hynny, fel y nodir yn yr astudiaeth achos isod.



**Astudiaeth achos: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac Interlink: Menter Arloesi Tlodi Plant**

Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hardaloedd Arloesi o ran Tlodi Plant o dan raglen 'Teuluoedd yn Gyntaf' - y naill yng Ngogledd Cymru a'r llall yn ne Cymru, a arweiniwyd gan gyngor Rhondda Cynon Taf a fu'n gweithio gyda Chyngor Merthyr Tudful a Chyngor Blaenau Gwent.

Nod ardaloedd Arloesi Tlodi Plant oedd sefydlu arfer da o ran darparu gwasanaethau i deuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. Gofynnwyd i bob ardal Arloesi sefydlu a datblygu dulliau effeithlon ac effeithiol o helpu i godi teuluoedd allan o dlodi. Roedd y dulliau gweithredu hyn yn cynnwys y canlynol:

- proses asesu gyffredin ar gyfer pob teulu lle y pennwyd gweithiwr allweddol i gynnal yr asesiad; a
- llwybr cynorthwyo teuluoedd integredig sy'n cyflawni nodau Teuluoedd yn Gyntaf â'r cydbwysedd cywir o ymyriadau.

Ochr yn ochr â'r dulliau gweithredu hyn, ymgynghorwyd â holl aelodau'r teuluoedd i nodi'r hyn roeddent yn ei feddwl ac yn ei deimlo am eu profiad o gael cymorth pan oedd pethau yn mynd yn anodd yn eu bywydau. Ymgynghorwyd â theuluoedd hefyd ar sut roeddent yn teimlo am gael eu hasesu ar gyfer y cymorth hwnnw. Roedd y Cyngor a'i bartneriaid am gael gwybodaeth am effeithiolrwydd dulliau gweithredu cyfredol ac felly ymgynghorwyd â rhai o'r teuluoedd tra roeddent yn mynd drwy'r prosesau asesu. Roedd yn amlwg bod y broses asesu yn aml yn anodd i deuluoedd, yn enwedig pan oedd yn rhaid iddynt ailadrodd eu hanes nifer o weithiau i wahanol weithwyr. Nododd yr ymgynghoriad y canlynol hefyd:


- mae asesiadau cyson yn gwneud pethau'n waeth nid yn haws;
- dim ond pan gafodd y teulu cyfan ei gynorthwyo y gwellodd y sefyllfa; ac
- mae cael un gweithiwr allweddol cyson o fudd mawr i'r cleient.

Gwerthfawrogwyd dyfyniadau gan deuluoedd hefyd:

- 'Ni allwch ddod i mewn i fywyd rhywun a'i newid mewn chwe wythnos.' (Un o gleientiaid y Gwasanaethau Cymdeithasol)
- 'Nid ymddengys fod un rhan o'r system yn sylweddoli faint o effaith y mae'n ei chael ar ran arall, wrth ymdrin â'r un teulu.' (Gweithiwr)
- 'Mae llwyth o bobl pan fyddwch yn mynd i gyfarfod a dydyn nhw ddim yn siarad â chi, dim ond amdanoch chi.' (Person ifanc yn sôn am ei chyfarfod adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal)
- 'Nid dim ond fi sydd angen help, mae angen help ar fy mam hefyd.' (Person ifanc)

Bydd y wybodaeth a gafwyd o'r broses ymgynghori hon yn llywio'r gwaith o ddatblygu dull Tîm o Amgylch y Teulu o weithredu, a gaiff ei dreialu mewn ardaloedd penodol yn Rhondda Cynon Taf.

**1.34** Ymddengys mai'r llwyddiannau mwyaf yw prosiectau sydd wedi gweithio gyda phobl ifanc a'u cynnwys yn effeithiol. Mae natur partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn disgwyl i gynghorau a'u partneriaid barhau i ymdrechu i ymgysylltu â phobl iau. Serch hynny, ceir nifer o enghreifftiau lle mae mentrau wedi cael llwyddiant nodedig, er enghraifft, wrth helpu i leihau troseddu sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol ymhlith pobl ifanc a gweithio gyda hwy i'w helpu i wella eu cyfleoedd bywyd. Mae hwn yn faes ymgysylltu lle mae cynghorau yn dechrau cael eu llywio gan ddylanwadau allanol i helpu i ddatblygu a hyrwyddo gweithgarwch ymgysylltu effeithiol. Er enghraifft, mae'r Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc wedi datblygu saith safon ar gyfer gwaith ymgysylltu effeithiol, er mwyn helpu cynghorau i ddatblygu dull gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.



## Adran 2

Nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau wedi ymgorffori a phrif ffrydio gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn llawn eto yn eu diwylliant sefydliadol na'u gweithgareddau partneriaeth



## Nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau wedi ymgorffori a phrif ffrydio gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn llawn eto yn eu diwylliant sefydliadol na'u gweithgareddau partneriaeth

2.1 Yn yr adran hon o'r adroddiad rydym yn ystyried y canlynol:

- a faint o ymrwymiad a dealltwriaeth sydd gan uwch swyddogion cynghorau a chynghorwyr o ran ymgysylltu â'r cyhoedd;
- b a yw cynghorau yn datblygu dull strategol o gynllunio a gweithredu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd; ac
- c effaith gwaith partneriaeth a threfniadau cydweithio o ran ymgysylltu â'r cyhoedd.

## Ychydig o gynghorau sydd wedi datblygu dull cadarn, strategol a chydgysylltiedig o ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn gwella canlyniadau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd

**Arddangosyn 4: Pam mae strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd yn bwysig**

Gall strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd roi sail ar gyfer nodi canlyniadau dymunol a mesurau llwyddiant, helpu i gynllunio a chydgysylltu camau gweithredu, gwella perchenogaeth a gwaith partneriaeth, pennu cyfrifoldebau a nodi pwy a ddylai gael ei ddwyn i gyfrif. Mae hefyd yn helpu i nodi'r dull cywir o ymgysylltu, a all alluogi dinasyddion i ddylanwadu ar ansawdd prosesau darparu gwasanaethau ac felly fod o fudd i unigolion a chymunedau. Yn olaf, mae'n gwella ansawdd gwaith rheoli perfformiad a chraffu er mwyn goruchwylio, monitro a gwerthuso'r modd y cyflawnir gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd.

### Nid yw arweinyddiaeth gwleidyddion na rheolwyr o ran gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i ddatblygu'n llawn eto

2.2 Gall ymgysylltu â'r cyhoedd fod yn gysyniad eang, a all gael ei ddehongli a'i ddiffinio mewn ffyrdd gwahanol. Felly, mewn cyngor, mae arweinyddiaeth a ffocws cryf yn hanfodol er mwyn datblygu a chyfleu syniadau clir ynghylch yr hyn y gall gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ei gyflawni, er mwyn nodi ei ddiben cyffredinol yn gliriach, diffinio canlyniadau dymunol a gosod safonau uchel ar gyfer cyflawni.

2.3 Cafwyd bod ymrwymiad datganedig uwch swyddogion a chynghorwyr yn eithaf cyffredin, a bod gwerth ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael ei werthfawrogi o leiaf. Mae agwedd uwch arweinwyr fel arfer yn gadarnhaol ac ar y cyfan maent yn barod i dderbyn bod angen gwella ansawdd eu gweithgareddau

ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r sylwadau eraill yn cynnwys cydnabod nad yw ymgysylltu â'r cyhoedd yn ymarfer ticio blychau yn unig, gan sylweddoli bod yn rhaid iddo fod yn ymarfer ystyrlon i'r cyhoedd a gwerth chweil i'r cyngor. Mae'r rhai a gyfwelwyd gennym yn y cynghorau yn ystyried bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael dylanwad cadarnhaol i wella ansawdd prosesau gwneud penderfyniadau a'u gwneud yn fwy perthnasol drwy helpu i nodi barn ac anghenion y cyhoedd. Maent yn cydnabod bod hyn yn helpu i flaenoriaethu, llywio a gwella gwasanaethau er mwyn sicrhau bod cynghorau yn diwallu anghenion cymunedau yn fwy effeithiol.

**2.4** Mae rhai cynghorau yn nodi, lle mae gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd wedi arwain at ganlyniadau pendant wedi'u dilyn gan ymateb cadarnhaol gan y cyhoedd, fod cynghorwyr a rheolwyr yn meithrin gwell dealltwriaeth o rôl ac effaith y cyhoedd yn y broses o newid a gwella gwasanaethau. Mae swyddogion arbenigol sy'n cyflawni gweithgareddau ymgysylltu wedi nodi, yn achos cynghorwyr a rheolwyr, fod y defnyddiwr gwasanaethau 'wedi dod yn fwy real iddynt'.

**2.5** Mewn rhai achosion, mae prif swyddogion gweithredol ac uwch gynghorwyr yn gweithredu fel 'hyrwyddwyr' dros weithgarwch ymgysylltu drwy fabwysiadu portffolios (gweler Paragraff 2.7) ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, megis 'sioeau teithiol'. Nododd nifer o unigolion a gyfwelwyd fod y fath gamau gweithredu yn helpu i atgyfnerthu a dangos ymrwymiad cyngor i weithgarwch ymgysylltu, gan hyrwyddo bod yn agored ac yn dryloyw a pharodrwydd i wrando ar staff a'r cyhoedd.

**2.6** Mae nifer gynyddol o gynghorau yn dechrau darparu hyfforddiant ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer cynghorwyr, gan gydnabod y gallai cynghorwyr chwarae rôl fwy amlwg mewn gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a allai helpu i wella eu hygrededd a'u gwneud yn fwy atebol. Ceir hefyd ychydig o enghreifftiau o gefnogaeth drawsbleidiol gref i weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, sy'n annog cynghorwyr i chwarae rôl fwy gweithredol mewn gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn gwella ansawdd prosesau gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, prin iawn yw'r enghreifftiau o ddulliau trawsadrannol integredig o ymgysylltu â'r cyhoedd ar lefel uwch swyddogion.

**2.7** Mae rhai cynghorau hefyd wedi penodi uwch gynghorwyr yn arweinwyr portffolio ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Eu rôl yw: gosod esiampl ac annog cynghorau i gymryd rhan mewn gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd; cyfleu manteision gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd llwyddiannus; annog cyfranogiad trawsbleidiol; ac annog defnyddio data ymgysylltu â'r cyhoedd i wella ansawdd prosesau gwneud penderfyniadau. Gwnaed y rhan fwyaf o'r penodiadau yn gymharol ddiweddar, felly mae'n rhy gynnar i asesu eu heffaith yn llawn.

**Arddangosyn 5: Rhoi llais i ymrwymiad i ymgysylltu â'r cyhoedd**

Un o'r tair egwyddor y cytunwyd arnynt gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Torfaen yn ei strategaeth gymunedol yw cyfranogiad:

'Good engagement with people who experience our services allows those that make decisions to understand how effective our services are, and helps them make decisions that are likely to improve services. This also helps people in the community to feel that the organisations providing public services are listening and responding to them and in turn, leads to trust in the public services being provided.'[29]

29 Y tair egwyddor y cytunwyd arnynt gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Torfaen yn ei strategaeth gymunedol yw dinasyddiaeth, democratiaeth a chyfranogiad.



**2.8** Mae'r mwyafrif o'r cynghorwyr a gyfwelwyd yn gefnogol ar y cyfan i'r syniad o ymgysylltu â'r cyhoedd. Maent yn cydnabod y gallai gweithgarwch ymgysylltu helpu i gynnal eu rôl fel arweinwyr cymunedol a rhoi hygrededd iddi. Fodd bynnag, mae nifer hefyd yn mynegi rhywfaint o ansicrwydd a diffyg hyder o ran sut y gallent ddylanwadu ar weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd neu helpu i'w gyfarwyddo. Nodwyd diffyg eglurder a rhywfaint o ansicrwydd ymhlith cynghorwyr ynghylch pa rôl y dylent ei chwarae o ran ymgysylltu â'r cyhoedd a sut mae'n ymwneud â'u mandadau gwleidyddol. Er gwaethaf eu rôl draddodiadol fel llefaryddion cymunedol sy'n trosglwyddo safbwyntiau a gwybodaeth rhwng y cyhoedd a'r cyngor, nid ydynt bob amser yn cael eu cynnwys mewn strategaethau ymgynghori cyfredol.

**2.9** Cafwyd hefyd mai cymysg oedd ymateb nifer o gynghorwyr a rhai uwch swyddogion i weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ac mae'n amlwg nad ydynt wedi'u llwyr argyhoeddi o'i fanteision. Mynegodd rhai bryderon y gallai gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd osgoi neu danseilio strwythurau a phrosesau democrataidd lleol sylfaenol. At hynny, roedd rhai o'r farn ei bod yn anodd sicrhau prosesau ymgysylltu gwirioneddol effeithiol am fod y cyhoedd yn aml yn ddifater neu am y gallai greu disgwyliadau uchel y byddai cynghorau yn ei chael yn anodd eu rheoli. Lleisiwyd pryderon hefyd y gallai cynghorau golli rheolaeth ar brosesau darparu gwasanaethau os rhoddir y cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau lleol i gymunedau ynghyd â'r adnoddau i wneud hynny.

## Nid oes gan y rhan fwyaf o gynghorau ddull strategol o ymgysylltu â'r cyhoedd

**2.10** Mae tua thraean o'r cynghorau wrthi'n drafftio neu'n mabwysiadu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer 'ymgynghori â'r cyhoedd', gan gydnabod bod yn rhaid i'w dull o weithredu gael ei gynllunio'n well a bod yn fwy strategol a chynhwysfawr. Mae rhai yn ystyried cynnwys sefydliadau partner Byrddau Gwasanaethau Lleol[30] mewn dull strategol o weithredu neu'n gweithio tuag at y nod hwnnw, fel y disgrifir yn yr astudiaeth achos nesaf gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, am fod strategaethau cynharach wedi tueddu i ganolbwyntio ar agweddau cyfyngedig ar weithgarwch ymgysylltu megis ymgynghori yn unig, ac nid ydynt wedi cynnwys trefniadau cydweithio. Mae adroddiadau strategol cyfredol yn cydnabod y gall gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd effeithiol helpu i ddatblygu cydberthnasau da a chydymddiriedaeth â thrigolion ac mae'n hanfodol i atgyfnerthu strategaethau a blaenoriaethau allweddol drwy nodi mesurau llwyddiant a chanlyniadau yn fwy manwl gywir. Mewn rhai achosion, mae uwch swyddogion yn cael eu gwneud yn uniongyrchol gyfrifol am oruchwylio unrhyw weithgarwch sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd.

30 Trafodir materion gweithio mewn partneriaeth ymhellach ar dudalen 36.

**Astudiaeth achos: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Datblygu Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar y cyd ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol**

Ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mewn partneriaeth â'r heddlu a'r sector iechyd, wedi arwain y gwaith o ddatblygu Strategaeth Ymgysylltu â Dinasyddion (y Strategaeth) a gymeradwywyd ym mis Tachwedd 2010. Ni fydd y Strategaeth yn disodli'r trefniadau presennol ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion a geir mewn sefydliadau unigol sy'n rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ond bydd yn ategu'r trefniadau presennol ac yn darparu fframwaith i sicrhau dull cydgysylltiedig a chyson o ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r Strategaeth yn nodi nodau a chanlyniadau clir a chyffredin a bydd yn cefnogi, yn annog ac yn galluogi cymunedau lleol i ymgysylltu'n well â'r asiantaethau ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod yr asiantaethau hyn yn ymgysylltu â dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau mewn modd cydgysylltiedig. Mae'r Cyngor hefyd wedi arwain y gwaith o sefydlu Grŵp Llywio Ymgysylltu â Dinasyddion i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, sy'n cynnwys sefydliadau partner allweddol, er mwyn sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus. Un o'i dasgau yw datblygu rhaglen ymgysylltu flynyddol i leihau cyfanswm yr ymgynghoriadau ynghylch gwasanaethau cyhoeddus a rhannu a chydgysylltu ymgynghoriadau. Bydd gwefan newydd yn galluogi ac yn annog dinasyddion i ymgysylltu â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar-lein.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn awyddus i sicrhau bod y Strategaeth yn gwella prosesau ymgysylltu a chaiff cynnydd ei fesur gan ddefnyddio Mesurau Canlyniadau'r Strategaeth Gymunedol, sef canran y bobl a arolygwyd sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau ac sydd wedi gwneud hynny, a chanran y trigolion sydd ag ymdeimlad cryf o gymuned. Bwriedir gwneud hyn yn 2012 gan ddefnyddio Arolwg Panel Dinasyddion y Cyngor.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi hwyluso hyfforddiant mewnol, a ddarparwyd gan y Sefydliad Ymgynghori a arweiniodd at tua 35 o ymarferwyr lleol o bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ennill achrediad Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Mae hyn yn helpu i feithrin gallu ac arbenigedd i sicrhau prosesau effeithiol o ymgysylltu â'r cyhoedd.

Drwy'r mentrau hyn mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gosod y sylfeini ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n effeithiol ac yn gydgysylltiedig ledled y fwrdeistref sirol. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn rhagweld y bydd gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu yn fwy effeithiol, y bydd costau yn llai, y caiff 'diflastod ag ymgynghori di-baid' ei osgoi ac y bydd dinasyddion yn cael profiad gwell o weithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu.

**2.11** Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau wedi datblygu dull strategol, cadarn o weithredu sy'n cynllunio ac yn cwmpasu eu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ac sy'n dangos yn glir sut mae'n helpu i lunio, llywio a hyrwyddo blaenoriaethau ac amcanion gwella allweddol eto.

**2.12** Nodwyd bod methu â datblygu dull gweithredu strategol yn aml yn arwain at golli cyfeiriad a datganiad o fwriad corfforaethol clir, a chamddealltwriaeth ynglŷn â'r hyn y mae gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a'i wahanol elfennau yn ei olygu mewn gwirionedd. O ganlyniad, nodwyd enghreifftiau o gynghorau yn ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ar sail ad hoc, sy'n awgrymu eu bod yn ansicr ynghylch y canlyniadau y maent yn ceisio eu cyflawni drwy weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Ceir hefyd ddiffyg eglurder ynghylch faint o'i adnoddau a'i gyllideb y dylai cyngor ei fuddsoddi mewn gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a pha fethodoleg i'w defnyddio, megis pryd i roi gwybodaeth, ymgynghori neu gydweithio. Nodwyd achosion, er enghraifft, lle yr ymgynghorwyd â'r cyhoedd heb roi gwybodaeth iddynt ymlaen llaw a fyddai wedi'u galluogi i wneud dewisiadau ystyrlon ac ystyriol.

## Nid yw strwythurau corfforaethol cyfredol i ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn cydgysylltu nac yn ategu'r gwaith o sicrhau arbedion effeithlonrwydd

**2.13** Oni bai bod dull gweithredu strategol ar waith i sicrhau eglurder ynghylch yr hyn y mae am ei gyflawni drwy weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, mae'n anodd i gyngor ddatblygu'n effeithiol y cam nesaf o gynllunio gweithgarwch ymgysylltu a'i gydgysylltu'n fanwl. Mae cydgysylltu llwyddiannus yn dibynnu'n fawr ar neges a dylanwad corfforaethol cryf i bennu cyfeiriad, diben ac atebolrwydd. Mae dull gweithredu



llwyddiannus hefyd yn gofyn am gydweithio agos rhwng gwasanaethau ac arbenigwyr ym maes ymgysylltu i helpu i'w roi ar waith a'i werthuso.

**2.14** Mae dros hanner y cynghorau yn gwneud cynnydd o ran datblygu dull cydgysylltiedig a chynlluniedig gwell o ymgysylltu â'r cyhoedd, mae enghreifftiau yn cynnwys:

- **a** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn dechrau datblygu rhwydwaith ymhlith gwasanaethau a phartneriaid allanol i roi trosolwg o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ledled yr ardal (gweler yr astudiaeth achos blaenorol).
- **b** Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn datblygu dull rhwydweithio mewnol dan oruchwyliaeth y Prif Weithredwr Cynorthwyol a dull o gydweithio â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i leihau dyblygu.
- **c** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn mireinio pecyn cymorth cynhwysfawr i nodi safonau ymarfer ac mae'n cofnodi enghreifftiau o weithgarwch ymgysylltu.
- **ch** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi sefydlu 'porth' i gofnodi unrhyw weithgarwch ymgysylltu a gynhelir o fewn yr ardal ac felly osgoi dyblygu.
- **d** Yn ddiweddar sefydlodd Cyngor Sir Powys borth tebyg ac mae bellach yn gweithio i gynnwys gweithgareddau ymgysylltu cyhoeddus partneriaid.

**2.15** Fodd bynnag, cafwyd nad oes llawer o gynghorau wedi datblygu blaengynllun cynhwysfawr ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd eto. Nid oes ganddynt brosesau na fframweithiau cadarn eto i sicrhau bod unrhyw weithgarwch ymgysylltu yn cael ei gynllunio a'i gydgysylltu'n drylwyr rhwng gwasanaethau, gan fanteisio ar arbedion effeithlonrwydd posibl drwy rannu adnoddau ac osgoi dyblygu.

**2.16** O ganlyniad, yn aml ymddengys fod gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn ddigyswllt, heb unrhyw gamau gweithredu corfforaethol i ddod â gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd at ei gilydd i rannu arbenigedd, profiad a gwybodaeth, neu sicrhau bod gweithdrefnau cywir ac adnoddau priodol yn cael eu defnyddio. At hynny, ni welwyd unrhyw brosesau a ddefnyddir yn gyson ar waith a fyddai'n rhoi amcangyfrifon cadarn o'r holl gostau cyllidebol. Ac ni chynhaliai'r cynghorau asesiadau risg nac effaith rheoliad i nodi sut y byddent yn ymdrin â phwnc dadleuol neu sensitif ychwaith. O ganlyniad, mae rhai cynghorau wedi wynebu sefyllfaoedd anodd a lefelau annisgwyl o wrthwynebiad.

**2.17** Byddai diffyg cynllunio yn aml yn arwain at anallu i werthfawrogi bod yn rhaid buddsoddi cryn dipyn o amser ac adnoddau i sicrhau gweithgarwch ymgysylltu effeithiol. Nodwyd achosion lle y bu'n rhaid sianelu adnoddau o wasanaeth arall i ddiwallu anghenion mewn ymarfer ymgysylltu mawr, gan ddefnyddio felly gyllideb a staff gwasanaeth arall. Yn aml nid oedd gan gynghorau ddarlun llawn o'r gallu a'r adnoddau a oedd ar gael iddynt drwy'r sefydliad cyfan, i ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd.

**2.18** Roedd tua thraean o'r cynghorau wedi datblygu canllawiau neu adnoddau corfforaethol ac roeddent yn cyflogi swyddogion arbenigol i hyrwyddo neu gefnogi gweithgarwch ymgysylltu. Ond oherwydd diffyg cynllunio yn aml nid oedd digon yn cael ei wneud i hyrwyddo, cydgysylltu a monitro llawer o fentrau da, megis datblygu 'pecynnau cymorth' a 'chalendrau gweithgarwch', y bwriedir iddynt sefydlu fframwaith safonol ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Hefyd, mae cynghorau yn aml yn ansicr ynghylch a oedd gwasanaethau yn defnyddio'r

'adnoddau' neu'n cydymffurfio â chanllawiau neu safonau corfforaethol neu sut roeddent yn gwneud hynny. Roedd yn anodd iddynt gadw llygad ar faint o weithgarwch ymgysylltu a oedd yn cael eu cyflawni ym mhob un o'u gwasanaethau a'r math o weithgarwch ymgysylltu. Mae'r diffyg monitro hwn yn aml i'w briodoli i brinder adnoddau i fonitro pa weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n cael ei gyflawni.

**2.19** Mae'r ffaith nad yw gwasanaethau yn rhannu gwybodaeth neu eu bod yn 'gweithio mewn seilo' yn dal i fod yn rhwystr i ddatblygu dull cydgysylltiedig o ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn aml nid yw gwasanaethau yn ymwybodol o'u rôl o ran cyflawni gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd mewn cyngor, na sut mae'n berthnasol i'w gwasanaeth. Hefyd, er bod rhai gwasanaethau yn fwy medrus wrth ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, yn aml mae anhyblygrwydd neu anallu i'w gwneud yn haws i staff weithio ar draws gwasanaethau er mwyn rhannu'r arbenigedd a'r profiad hwn. At hynny, mae systemau casglu data yn aml yn rhai cyfyngedig ac yn ymwneud â gwasanaeth penodol yn unig, felly ni all gwasanaethau rannu data yn hawdd[31]. Nodwyd sawl enghraifft o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â gwasanaeth penodol a gyflawnwyd yn dda y gellid eu defnyddio fel 'templedi', er mwyn helpu i ddatblygu cynllun i'r cyngor cyfan a diffinio sut y bydd gweithgarwch ymgysylltu yn helpu i lywio gwasanaethau a sefydlu fframwaith i fonitro a gwerthuso cynnydd.

**2.20** Mae rhai cynghorau wedi cydnabod y materion hyn ac maent wrthi'n sefydlu gweithgorau ymgysylltu â'r cyhoedd trawsadrannol er mwyn datblygu 'dull mwy cydgysylltiedig a chynlluniedig o weithredu' ymhlith swyddogion gweithredol. Bydd y fath waith cydgysylltu yn ei gwneud yn bosibl i wasanaethau nodi cyfleoedd i rannu adnoddau ac arbenigedd a threfnu digwyddiadau ar y cyd.

## Ceir rhai enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth ym maes ymgysylltu â'r cyhoedd ond ni sicrhawyd unrhyw arbedion effeithlonrwydd sylweddol eto

**Arddangosyn 6: Gall gweithio mewn partneriaeth wella ansawdd gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd**

Mae gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a gyflawnir ar y cyd gan bartneriaid yn eu galluogi i rannu arbenigedd, adnoddau a gwybodaeth ac mae'n helpu i feithrin gallu'r naill a'r llall. Mae'n annog partneriaid i ddechrau blaengynllunio a datblygu dull o ymgysylltu â'r cyhoedd i'r ardal gyfan, gan gysoni gweithgareddau ymgysylltu ac osgoi dyblygu a diflastod ag ymgynghori di-baid. Mae Llywodraeth Cymru yn annog mwy o gydweithio yn y rhan fwyaf o wasanaethau a rhwng pob sefydliad yn y sector cyhoeddus, dull gweithredu a fydd yn helpu i gyflawni gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd.

Felly mae angen i gynghorau a phartneriaid eu Bwrdd Gwasanaethau Lleol fod yn ymrwymedig i ymgysylltu â defnyddwyr eu gwasanaethau a'u cymunedau 'so that they can work together, guided by local priorities and a shared sense of what matters locally.'[32]

### Mae gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael ei gyflawni fwyfwy drwy waith partneriaeth o fewn Byrddau Gwasanaethau Lleol, ond nid yw'r dull gweithredu yn un strategol eto

**2.21** Mae llawer o gynghorau yn fwy parod i adeiladu ar gysylltiadau sefydledig â phartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol drwy bartneriaethau penodol, megis Diogelwch Cymunedol neu Iechyd a Lles, er mwyn cynllunio a chynnal gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd ar y cyd.

31 Trafodir rhannu data ymgysylltu â'r cyhoedd yn fanylach yn Adran 3.

32 *Developing your comprehensive community engagement strategy*, IDeA 2009.



**2.22** Mae'n amlwg bod cynghorau yn deall bod cynnal gweithgareddau ymgysylltu ar y cyd yn sicrhau manteision i bob partner dan sylw, am y gallant ddechrau cydgysylltu eu cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn helpu i osgoi dyblygu; rhannu adnoddau i sicrhau arbedion maint, yn ogystal ag adnoddau a gwybodaeth. Gall y cyhoedd yn ei dro gael budd o ddull mwy cydgysylltiedig o weithredu sy'n osgoi ymgynghori â hwy yn ormodol.

**2.23** Yn ogystal â manteision amlwg cydweithio, mae cynghorau hefyd yn cydnabod bod gan bartneriaid Byrddau Gwasanaethau Lleol wybodaeth arbenigol, profiad a chysylltiadau a all eu helpu i adeiladu ar gydberthnasau sy'n bodoli eisoes, er mwyn cysylltu ag aelodau o gymunedau sy'n fwy agored i niwed. Mae rhannu gwaith a chyfnewid gwybodaeth yn y fath fodd yn helpu cynghorau i dargedu a theilwra gweithgarwch ymgysylltu fel ei bod yn gweddu i'r rhai 'a welir yn llai aml' neu'r rhai sy'n wynebu mwy o risg.

**2.24** Ymddengys ar hyn o bryd fod enghreifftiau o drefniadau cydweithredol sefydledig ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn y rhan fwyaf o gynghorau. Ceir enghreifftiau lle mae partneriaid wedi rhannu sgiliau, adnoddau a syniadau i fynd i'r afael â phroblemau penodol sy'n wynebu cymunedau neu nodi anghenion. Mae mentrau'r Bartneriaeth Fframwaith[33] yn annog defnyddwyr gwasanaethau i weithio gyda chynghorau a'r sector gwirfoddol i nodi problemau a dod o hyd i atebion ar y cyd i helpu i ddatrys problemau teuluoedd a chymunedau. Mae cynghorau hefyd yn gweithio gyda phartneriaid ar brosiectau ymgynghori 'gorchwyl a gorffen' ar wahân, megis asesiadau o anghenion Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

**2.25** Er bod enghreifftiau o ymdrechion i ddatblygu dull mwy strategol o ymgysylltu â'r cyhoedd gan Fyrddau Gwasanaethau Lleol (gweler yr astudiaethau achos nesaf), ar hyn o bryd, mae cydweithio ar brosiectau ymgysylltu â'r cyhoedd yn tueddu i ddigwydd ar sail ad hoc, ac anaml y mae'n rhan o drefniant ardal strategol ehangach.

**2.26** Nodwyd bod diffyg eglurder yn aml ynghylch yr hyn y mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn ceisio ei gyflawni ar y cyd drwy ymgysylltu â'r cyhoedd. Ceir hefyd ddiffyg eglurder ynghylch pa rolau y dylai pob un o aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol eu chwarae a pha gyfrifoldebau a ddylai fod ganddynt a sut y gallant wella atebolrwydd y Bwrdd a'i bartneriaid.

**2.27** Mae nifer o Fyrddau Gwasanaethau Lleol bellach yn dechrau ffurfioli arferion partneriaeth cyfredol i lunio strategaethau cydlynol sy'n cyfleu'n glir nodau partneriaid ar gyfer ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ledled ardal y sir. Maent yn ceisio sicrhau bod pob un o'r partneriaid yn helpu i ddangos ymrwymiad a pharodrwydd cyffredin i wella gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae rhai o'r partneriaethau yn dechrau rhoi neges glir a dangos arweiniad er mwyn sicrhau y caiff gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ei flaenoriaethu, ac mae dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sy'n gyfystyr â gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

**2.28** Dylai'r ddeddfwriaeth newydd o Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â datblygu Cynlluniau Cyflawni Sengl, sy'n galw ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol i integreiddio gweithgarwch cynllunio gwasanaethau lleol, gael cryn effaith ar agenda ymgysylltu â'r cyhoedd Byrddau Gwasanaethau Lleol:

33 Sefydlwyd y Bartneriaeth Fframwaith i ddatblygu, gweithredu a monitro'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar gyfer Rhondda Cynon Taf, sef y datganiad strategol allweddol sy'n nodi sut y caiff lles pob plentyn, person ifanc a theulu ei wella.

'Ni wnaed digon o ddefnydd o lais dinasyddion a chymunedau er mwyn ysgogi gwelliant. Wrth lunio eu strategaethau gwybodaeth ac ymgysylltu, ac ymgymryd ag atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau, dylai Byrddau Gwasanaethau Lleol ganolbwyntio gyda phwrpas ar atgyfnerthu llais dinasyddion mewn ffyrdd sy'n mynd y tu hwnt i ymgynghori i weithgarwch ymgysylltu dwys iawn sy'n cael effaith sylweddol o ran y prif faterion a blaenoriaethau.'[34]

**2.29** Bwriad Llywodraeth Cymru yw y dylai gweithgarwch diwygio gwasanaethau cyhoeddus fod 'yn seiliedig ar lais y dinesydd fel sbardun i wella gwasanaethau. Dylai cynllun integredig unigol nodi sut mae partneriaid yn bwriadu ymgysylltu â phobl a chymunedau, gyda ffocws clir iawn ar sut y bydd hyn yn helpu i wella gwasanaethau a phrofiad unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol.'[35]

**2.30** Felly dengys hyn yn glir iawn y dylid mynd ati i ymgysylltu â'r cyhoedd yn y dyfodol mewn partneriaeth a thrwy gydweithio'n fwy. Dylai'r datblygiad hwn gael cryn effaith ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol a'u strategaethau ymgysylltu â'r cyhoedd, gan droi datblygiad dymunol yn ddatblygiad hanfodol.

**Astudiaeth achos: Dinas a Sir Caerdydd a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol – Ymgynghoriad ar y cyd gyda phob darparwr gwasanaeth**

Dyma'r tro cyntaf i ddull ymgynghori ac ymgysylltu yn seiliedig ar Asesiad Anghenion Strategol ar y cyd a gwaith partneriaeth gael ei fabwysiadu er mwyn llywio strategaeth a pholisi ym mhob un o'r darparwyr gwasanaethau yn y sector cyhoeddus. Gwnaed hyn drwy ddatblygu Strategaeth Bartneriaeth Integredig a elwir yn *Beth sy'n Bwysig*. Er mwyn lleihau dyblygu ymdrech ac adnoddau o fewn partneriaethau statudol yng Nghaerdydd a rhyngddynt, datblygwyd un Asesiad o Anghenion ar y Cyd gydag un rhaglen ymgynghori ac ymgysylltu ymhlith y partneriaid. Bu'r canlyniadau'r trefniadau cydweithio yn fodd i wella mynediad a phrosesau rhannu data a dadansoddi rhwng y partneriaid gan gynnwys y Cyngor, yr Heddlu, y Sector Iechyd a'r Sector Gwirfoddol. O ganlyniad, am y tro cyntaf yng Nghaerdydd, mae hyn wedi'i gwneud yn bosibl i ddatblygu strategaeth bartneriaeth integredig sy'n gwbl seiliedig ar dystiolaeth – *Beth sy'n Bwysig* – sydd wedi disodli'r cynlluniau statudol unigol blaenorol.

Bwriedir mesur ei llwyddiant drwy ddefnyddio dull atebolrwydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chanlyniadau i brofi a yw'r blaenoriaethau yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i gymunedau Caerdydd mewn gwirionedd. Roedd yr asesiad anghenion yn cynnwys y camau canlynol:

- sefydlu Tîm Gwybodaeth Fusnes partneriaeth;
- archwilio data o asesiadau anghenion presennol;
- nodi adnoddau data partneriaeth presennol;
- nodi adnoddau data newydd a phrocsi;
- cwblhau Asesiad Anghenion lefel uchel;
- nodi canlyniadau mesuradwy drwy atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau;
- datblygu agenda datblygu data os nad oes data ar gael;
- llunio Adroddiadau Gwybodaeth am Gymdogaethau i lywio gwaith partneriaeth yn lleol.

34 Dyfyniad o'r ddogfen ymgynghori ar y Cynllun Cyflawni Sengl gan Lywodraeth Cymru, *Cydamcanu, Cydymdrechu*, 10 Ionawr 2012.

35 Dyfyniad o'r ddogfen ymgynghori ar y Cynllun Cyflawni Sengl gan Lywodraeth Cymru, *Cydamcanu, Cydymdrechu*, 10 Ionawr 2012.



## Mae'r rhan fwyaf o drefniadau rhanbarthol a chydweithredol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar gam rhy gynnar i ddangos arbedion effeithlonrwydd

**2.31** Yn ogystal ag enghreifftiau o gydweithio rhwng partneriaid Byrddau Gwasanaethau Lleol, ceir enghreifftiau o gydweithio mwy effeithiol rhwng cynghorau cyfagos er mwyn trefnu neu gynnal gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae rhai unigolion a gyfwelwyd wedi nodi bod pwysau cynyddol toriadau ariannol a'r cynnydd yn nifer y gwasanaethau a rennir rhwng cynghorau, fel y nodwyd gan Adroddiad 'Simpson' a gyhoeddwyd yn ddiweddar,[36] yn cynnig cyfle i ddatblygu dull mwy cydweithredol rhwng cynghorau er mwyn trefnu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd.

**2.32** Yn ystod yr Astudiaeth, gwelwyd rhai enghreifftiau o fwy o gydweithio lle mae nifer fach o gynghorau yn ceisio ymestyn adnoddau a sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd drwy wahanol drefniadau cydweithio:

**a** Gwaith rhwng cynghorau: mae Cyngor Merthyr Tudful a Chyngor Rhondda Cynon Taf yn cydweithio ar brosiect ymgynghori ac ymgysylltu ar y cyd gan ddefnyddio Arian Cronfeydd Ewropeaidd. Bydd y prosiect yn helpu i gydgysylltu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd rhwng Cynghorau a'u Byrddau Gwasanaethau Lleol, gan ffurfio'r sail dros ddull strategol o weithredu ar y cyd, sy'n briodol i'r ddwy ardal am eu bod yn rhannu llawer o anghenion a materion cyffredin. Cynhaliodd Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Conwy ymgynghoriad ar y cyd ar wasanaethau diogelwch cymunedol, iechyd a lles, trwyddedu a chynllunio.

**b** Cynghorau tref a chymuned: nid yw eu rôl o ran gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i datblygu'n ddigonol yn y rhan fwyaf o feysydd. Ac eto mae rhai cynghorau wedi cydnabod y gallent fod yn adnodd gwerthfawr i helpu i gyrraedd cymunedau, ac maent yn adeiladu ar gydberthnasau sefydledig i helpu i gynyddu a gwella gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Fynwy, yn unol â'i Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd, wedi cytuno ar brotocol â'i gynghorau cymuned ar gyfer gweithredu gweithgarwch ymgysylltu.

**c** Y trydydd sector neu'r sector gwirfoddol: Ceir enghreifftiau lle y caiff gweithgarwch ymgysylltu penodol ei drefnu ar y cyd gan gynghorau a'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, maent yn tueddu i fod ar sail weithredol ac ymatebol yn hytrach na rhan o ddull strategol o weithredu, er enghraifft, asesu anghenion iechyd ar y cyd ag asesiadau o anghenion iechyd a lles.

**2.33** Yn 2007, derbyniodd Cyngor Caerdydd, Cyngor Torfaen a Chyngor Blaenau Gwent y gwahoddiad i gymryd rhan ym mhrosiect y Strategaeth Ymgynghori Pellach, a ariannwyd yn bennaf gan Gronfa Wella 'Creu'r Cysylltiadau' Llywodraeth Cymru tan fis Mawrth 2009. Ei nod oedd llunio fframwaith a fyddai'n helpu i wella a chydgysylltu'r dulliau ymgynghori ac ymgysylltu a ddefnyddir yn yr ardaloedd hynny, a llunio adnoddau a dulliau a fyddai'n helpu'r broses honno i eraill. Mae adnoddau a chanlyniadau'r prosiect wedi'u mabwysiadu a'u datblygu ymhellach gan Cyfranogaeth Cymru[37] ac maent yn rhan o'r canllawiau ar ymgysylltu â'r cyhoedd ar wefan 'Holi Caerdydd'. Fodd bynnag, er iddo esgor ar rai canlyniadau cadarnhaol, nid yw

36 Adroddiad Simpson yw'r enw cyfeirio poblogaidd am: *A Report to Carl Sargeant, AM, Minister for Social Justice and Local Government on Local, Regional, National: What servives are best delivered where?*, CAB (10-11) 66 adroddiad Simpson. Cyhoeddwyd 2011.

37 Mae Cyfranogaeth Cymru yn sefydliad a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ac annog gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd gan gyrff yn y sector cyhoeddus.

canlyniadau'r prosiect yn cynnwys cydweithio parhaus rhwng y tri chyngor i ymgymryd â gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd ar raddfa sylweddol, na rhoi templed cadarn ar sut y gellid sicrhau cydweithredu pellach rhwng cynghorau neu fod cynghorau yn integreiddio gwaith ymgynghori â'r cyhoedd ymhellach. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r adnoddau helaeth ac anghynaliadwy a oedd eu hangen i gwblhau'r prosiect.

**2.34** I gloi, cafwyd, mewn llawer o achosion, nad oedd yr ymrwymiad datganedig i ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i ategu eto gan strwythurau a chamau gweithredu. Er enghraifft, mae tua un o bob tri chyngor yn gweithio tuag at lunio strategaethau neu ddatblygu dull mwy strwythuredig o weithredu a diwylliant cefnogol i'r cyngor cyfan. Mewn cyferbyniad, dim ond megis dechrau y mae lleiafrif o gynghorau o hyd o ran sefydlu ymgysylltu â'r cyhoedd fel gweithgaredd rheolaidd ac nid ydynt wedi datblygu dull o weithredu a gynlluniwyd ac sydd ag adnoddau llawn.





## Adran 3
Anaml y mae cynghorau yn rhoi adborth ar y gwahaniaeth y mae ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i wneud, ac mae gweithgarwch monitro a gwerthuso yn wan





## Anaml y mae cynghorau yn rhoi adborth ar y gwahaniaeth y mae ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i wneud, ac mae gweithgarwch monitro a gwerthuso yn wan

**3.1** Yn yr adran hon o'r adroddiad rydym yn ystyried y canlynol:

- **a** a yw cynghorau yn rheoli ac yn defnyddio'r data a gasglant drwy weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol;
- **b** a ydynt yn monitro ac yn gwerthuso eu gweithgareddau a'u prosesau ymgysylltu'n drylwyr er mwyn gweld a yw eu hamcanion yn cael eu cyflawni; ac
- **c** a oes unrhyw dystiolaeth bod gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael effeithiau a chanlyniadau cadarnhaol a bod adborth ar hyn yn cael ei gyflwyno'n effeithiol i'r cyhoedd.

## Nid yw cynghorau yn gwneud digon i gasglu ac adolygu data am eu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a cheir gwendidau o ran y modd y rheolir perfformiad y cyfryw weithgarwch ac y creffir arno

**Arddangosyn 7: Pam mae'n bwysig monitro a gwerthuso gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd**

Mae angen i gynghorau gydnabod bod y cyhoedd yn ffynhonnell wybodaeth bwysig am effeithiolrwydd gwasanaethau a'u bod yn helpu i fesur pa agwedd ar weithrediadau cyngor sy'n bwysig. Cyn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, dylai cynghorau nodi'n glir pam maent wedi dewis ymgysylltu â'r cyhoedd, pa wybodaeth sydd ei hangen ganddynt a pha nodau neu ganlyniadau y maent am eu cyflawni. Mae angen i gynghorau allu casglu set gyflawn o ddata sy'n deillio o'u holl weithgarwch ymgysylltu i'w helpu i asesu defnyddioldeb ac effaith eu gweithgarwch ymgysylltu. Heb ddata cynhwysfawr a chywir, mae'n anodd i gynghorau gynllunio at y dyfodol, penderfynu a oes angen ymgysylltu â'r cyhoedd mewn gwirionedd a dewis y dull mwyaf priodol o ymgysylltu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

Wrth gyflawni gweithgarwch ymgysylltu ac ar ôl hynny, mae gwaith monitro corfforaethol cadarn yn hanfodol i ddangos a fu'r gweithgarwch ymgysylltu yn llwyddiannus: bod y dulliau ymgysylltu cywir yn cael eu defnyddio, bod y wybodaeth a'r data perthnasol yn cael eu casglu a bod ymateb y cyhoedd yn effeithiol ac yn gynhyrchiol. Dylai gwaith monitro effeithiol hefyd helpu cynghorau i sicrhau bod eu gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn fwy effeithiol yn y dyfodol.



**Nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau yn coladu, yn dadansoddi nac yn defnyddio'r data a gasglwyd drwy weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn drylwyr**

**3.2** Gall bron pob cyngor ddangos ei fod yn casglu gwybodaeth a data sy'n deillio o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd penodol, naill ai o brosiectau ymgysylltu unigol a arweinir gan wasanaethau neu o weithgareddau ymgysylltu corfforaethol, megis arolygon trigolion neu baneli dinasyddion. Fel arfer cyflwynir y data hwn i uwch dimau rheoli a byrddau gweithredol neu gabinetau.

**3.3** At hynny mae gan sawl cyngor gronfeydd data 'corfforaethol' sy'n cynnwys gwybodaeth am weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r rhain yn amrywio o ran eu natur a'u cylch gwaith; mae rhai cronfeydd data wedi'u creu ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu corfforaethol yn unig megis arolygon trigolion neu baneli dinasyddion, ond nid ydynt yn cynnwys gweithgarwch ymgysylltu penodol a arweinir gan wasanaethau. Mae cronfeydd data eraill yn debycach i 'galendrau' ac maent yn cynnwys gwybodaeth am amseriadau a natur y gweithgareddau ymgysylltu a gynhelir gan y cyngor yn bennaf. Mae rhai hefyd yn cynnwys digwyddiadau ymgysylltu partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

**3.4** Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r cynghorau yn cydnabod nad oes ganddynt fframweithiau na phrosesau corfforaethol cadarn a digonol ar gyfer coladu a gwerthuso gwybodaeth ar yr holl weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Ac nid ydynt yn datblygu nac yn cyhoeddi canllawiau corfforaethol ar sut i fonitro a gwerthuso data ychwaith. O ganlyniad, nid yw cynghorau yn gwybod yn iawn pa fath o wybodaeth am weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd sydd ganddynt, faint o wybodaeth sydd ganddynt a beth yw proffil y wybodaeth honno – yn enwedig o fewn eu gwasanaethau.

**3.5** Ceir enghreifftiau lle mae systemau casglu data mwy cynhwysfawr wrthi'n cael eu datblygu gan gynghorau, ond prin yw'r enghreifftiau hyn. Un enghraifft yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen sy'n datblygu cronfa ddata ymgynghori ar y cyd fwy cynhwysfawr, sydd â dyddiadur i olrhain gweithgarwch. Mae'r cynghorau sy'n meddu ar y fath systemau hefyd yn rhagweld y byddant yn cynnwys data ar weithgarwch ymgysylltu partneriaid ac, yn y pen draw, y byddant yn gallu cymharu data â data lleol neu genedlaethol arall.

**3.6** Mae llawer o wasanaethau cynghorau, sy'n ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn rheolaidd, wedi datblygu eu 'systemau' annibynnol eu hunain i gasglu a dadansoddi data. I ryw raddau mae hyn wedi deillio o'r angen i lywodraeth leol ymateb a darparu data i fodloni gwahanol ofynion adrannau Llywodraeth, er enghraifft, fel rhan o geisiadau am grantiau neu'r gwaith o fonitro perfformiad cenedlaethol. Fodd bynnag, nodwyd bod y fath wybodaeth werthfawr yn aml yn aros y tu mewn i un o adrannau'r cyngor, yn hytrach na chael ei choladu a'i dadansoddi gan y cyngor cyfan i'r cyngor cyfan. Mae enghreifftiau o'r fath systemau annibynnol yn cynnwys gofal cymdeithasol, lle mae gweithgarwch ymgysylltu yn elfen bwysig o brosesau darparu gwasanaethau. Yn yr un modd mewn adrannau cynllunio, lle mae ymgynghori â'r cyhoedd yn broses statudol ar gyfer datblygu cynlluniau datblygu lleol. Hefyd, mae'n ofynnol i rai gwasanaethau drefnu a chasglu data ymgynghori er mwyn cydymffurfio fel rhan o gytundeb neu grant ariannu. Er enghraifft, gwnaeth Gwasanaethau Amgylcheddol Conwy goladu a dadansoddi data'n effeithiol ar gyfer prosiect Glan Dŵr Bae Colwyn.

3.7 Fodd bynnag, er i ni nodi bod gwasanaethau yn aml yn barod i rannu eu data ymgysylltu â'r cyhoedd, mae defnyddio systemau anghydnaws i storio a dadansoddi data yn cyfyngu ar allu gwasanaethau a sefydliadau partner eraill i gael gafael ar y wybodaeth a'i defnyddio. Heb ffynhonnell ddata ganolog, mae cynghorau yn colli cyfleoedd i weld, dehongli, gwirio a defnyddio set gyflawn o ddata ar weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. At hynny, yn aml ni allant gymharu na meincnodi data yn fewnol nac yn allanol.

3.8 Yn ogystal â'r ffaith nad yw data yn cael ei gasglu'n ganolog, yn aml nid oes gan gynghorau yr adnoddau na'r gallu i ddadansoddi a gwerthuso eu gwybodaeth am weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn llawn nac yn gynhwysfawr. Mae cynghorau yn ei chael yn anodd dangos y cysylltiadau rhwng data ymgynghori â'r cyhoedd a sut y'i defnyddir i wneud newidiadau, er enghraifft, er mwyn gwella gwasanaethau neu newid polisi. Nid yw data yn cael ei 'ddehongli'n' ddigonol na'i gyhoeddi mewn fformat sy'n dangos yn glir i'r cyhoedd pa effaith y mae eu hawgrymiadau a'u sylwadau wedi'i chael. O ganlyniad, mae llawer o gynghorau yn ei chael hi'n anodd dangos yn glir effeithiolrwydd gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ac i ba raddau yr ystyriodd penderfyniadau a wnaed ganlyniadau'r gweithgarwch ymgysylltu a beth a gyflawnir o ganlyniad i hynny.

## Mae llawer o gynghorau yn ei chael hi'n anodd dangos manteision sy'n deillio o'u gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd am nad oes ganddynt systemau cadarn i ddatblygu canlyniadau na mesurau nac adolygu eu prosesau

3.9 Ar hyn o bryd, nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau lleol yn dangos nac yn cyfleu'n glir effeithiolrwydd a chanlyniadau eu prosesau ymgysylltu â'r cyhoedd.

3.10 Mae cynghorau yn ei chael hi'n anodd dangos llwyddiant, yn bennaf oherwydd y diffyg canlyniadau mesuradwy sy'n deillio o'r gweithgareddau ymgysylltu. Ac nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau yn cynnal gwerthusiadau rheolaidd na ffurfiol o ba mor dda y mae'r gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei drefnu. Felly, maent yn ei chael hi'n anodd dangos yn glir effeithiolrwydd unrhyw weithgarwch ymgysylltu ac a fyddai angen gwella eu perfformiad o ran ymgysylltu â'r cyhoedd yn y dyfodol a pha welliannau a fyddai eu hangen.

3.11 Mae mesurau perfformiad cyfredol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn tueddu i adlewyrchu gwybodaeth sylfaenol megis nifer neu ganran yr unigolion a gyfranogodd neu a ymatebodd. Prin iawn yw'r enghreifftiau o gynghorau sydd wedi datblygu mesurau perfformiad a chanlyniad mwy ansoddol a nodwyd gan ein gwaith maes. Fodd bynnag, mae cynghorau sy'n canolbwyntio ar feithrin eu gallu i fesur llwyddiant o ran ymgysylltu â'r cyhoedd yn dechrau canolbwyntio'n gryfach ar ddatblygu canlyniadau pendant a realistig ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd y mae'n haws i'r cyhoedd a chyfranogwyr eu deall, ac sy'n helpu i ddangos y cynnydd a wnaed.



3.12 Nodwyd hefyd mai anaml y caiff staff rheoli perfformiad corfforaethol neu arbenigol eu cynnwys i helpu i lywio, monitro neu werthuso gweithgarwch ymgysylltu. Anaml y maent yn helpu i nodi a datblygu canlyniadau a mesurau perfformiad i asesu effeithiolrwydd perfformiad o ran ymgysylltu a sicrhau bod gweithgarwch ymgysylltu a chanlyniadau yn cysylltu ag amcanion gwella allweddol. Ac nid ydynt yn helpu i asesu a gydymffurfiodd gweithgaredd ymgysylltu â'r cyhoedd ag unrhyw safonau ymarfer a pherfformiad corfforaethol ychwaith.

3.13 Fodd bynnag, ceir enghreifftiau lle mae cynghorau yn dechrau cydnabod bod angen cynnwys trefniadau ffurfiol ar gyfer monitro a gwerthuso perfformiad er mwyn olrhain prosiectau ymgynghori corfforaethol mawr i weld pa mor dda y gweithiodd y prosesau a'r effaith a gawsant ar ansawdd y canlyniadau. Er enghraifft, gwnaeth Cyngor Sir Ddinbych fonitro adwaith ac ymatebion y cyhoedd i'w arolwg 'Dadl Fawr'[38], gan ddefnyddio'r adborth i helpu i wella gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn y dyfodol.

3.14 Nododd cynghorau hefyd ei bod yn haws weithiau ddatblygu mesurau perfformiad a chanlyniadau os yw'r prosiect ymgysylltu yn gliriach ei ffocws a bod ei ddiben yn gymharol glir. Er enghraifft, bu Gwasanaethau Amgylcheddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn annog ymgysylltu gwell â chymunedau a oedd yn wynebu perygl llifogydd, yn ystod sawl prosiect peirianyddol amddiffyn rhag llifogydd. Arweiniodd hyn at newidiadau buddiol yn cael eu gwneud i wasanaethau mewn ymateb i drefniadau cydweithredu agosach â'r cyhoedd. Gobaith y Cyngor oedd y byddai'r enghraifft hon yn argyhoeddi pob un o'i reolwyr o fanteision ymgysylltu â'r cyhoedd ac y byddai'n helpu i ddangos sut y gall y cwsmer fod wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

3.15 Nodwyd hefyd fod rhai cynghorau yn bwriadu gweithredu proses gorfforaethol gynhwysfawr er mwyn helpu i ddadansoddi'r math o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a gyflawnir ganddynt ac ansawdd y gweithgarwch hwnnw er mwyn asesu ei berfformiad a'i effaith. Er enghraifft, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cyflwyno ffurflen adborth sy'n holi gwasanaethau am y diben, canlyniadau dymunol, costau a'r adnoddau y bwriedir eu defnyddio, a sut y byddant yn gwerthuso'r gwaith o gyflawni eu gweithgareddau ymgysylltu a'u heffeithiolrwydd.

### Mae'r diffyg systemau casglu data canolog a gwaith dadansoddi gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn amharu ar ansawdd prosesau rheoli perfformiad, adrodd a chraffu o ran gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd

3.16 Nodwyd bod y rhan fwyaf o gynghorau yn aml yn cyflwyno adroddiadau ar ganlyniadau gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae adroddiadau fel arfer yn cael eu cyflwyno yn dilyn gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu mawr i gabinetau, y cyngor llawn ac, weithiau, i uwch dimau rheoli a phwyllgorau craffu. Mae rhai yn llunio adroddiad blynyddol ar yr holl weithgarwch ymgysylltu a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, y maent o'r farn ei fod yn dangos eu hymrwymiad i ddefnyddio gwybodaeth am ymgysylltu â'r cyhoedd fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau a gyflwynir yn aml yn tueddu i fod yn ddata craidd ac ychydig iawn o waith a wneir i ddadansoddi neu ystyried achosion sylfaenol ac ystyr y canlyniadau ymhellach.

3.17 Gall gwendidau o ran dadansoddi data a gwerthuso techneg amharu ar allu cynghorau i asesu ansawdd ac effaith eu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a chraffu arno'n fanwl.

38 Roedd y Ddadl Fawr yn brosiect ymgynghori mawr a gynhaliwyd rhwng diwedd 2011 a mis Ionawr 2012, a wahoddodd drigolion Sir Ddinbych i gyflwyno syniadau a sylwadau ar y meysydd lle y dylid lleihau gwariant y cyngor neu feysydd y dylid cyfeirio gwariant y cyhoedd atynt, er mwyn sicrhau bod trigolion yn cael y gwasanaethau y mae arnynt eu heisiau.

3.18 Er i enghreifftiau o rai adroddiadau roi gwybodaeth am ganlyniadau gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, mae'r math o wybodaeth a roddwyd yn y rhan fwyaf o adroddiadau yn tueddu i ganolbwyntio ar ddisgrifiadau o ddulliau ymgysylltu a ddefnyddiwyd a nifer y cyfranogwyr. Er bod rhai eithriadau, prin oedd yr enghreifftiau o unrhyw waith gwerthuso data manwl a nododd yn glir a yw canlyniadau bwriadedig y gweithgarwch ymgysylltu wedi'u cyflawni O ganlyniad, ni allai cynghorau asesu a oedd gweithgarwch ymgynghori neu ymgysylltu wedi cyflawni canlyniadau arfaethedig neu sut roedd wedi'u cyflawni na pha gyfraniad y maent wedi'i wneud tuag at, er enghraifft, wella gwasanaethau.

3.19 Yn yr un modd, nid yw cynghorau yn casglu digon o wybodaeth i fod mewn sefyllfa i asesu gwerth am arian mewn perthynas â gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n wynebu'r un pwysau ariannol â gwasanaethau neu weithgareddau eraill y cyngor. Ar hyn o bryd, prin iawn yw'r cynghorau sy'n cofnodi neu'n ystyried cost wirioneddol gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd o ran cyllideb ac adnoddau. Gall rhai cynghorau nodi costau gweithgarwch ymgysylltu corfforaethol ac maent yn eu rheoli, ond ychydig o gynghorau a allai fesur faint o arian ac adnoddau a oedd yn cael eu defnyddio ar draws gwasanaethau. Mae hyn hefyd yn wir am waith cyfrifo costau ffurfiol a allai arwain at gyfleu dadansoddiad cost a budd, a allai helpu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o resymeg dros godi tâl am wasanaethau a chostau gwasanaethau. Gall problemau godi wrth roi gwerth ar allbwn a chanlyniadau, oni nodir y rhain y glir ar y cychwyn.

**Arddangosyn 8: Amcangyfrif cost ymgysylltu â'r cyhoedd**

'Some suggest that because participatory products are 'intangible' they are beyond economic analysis. The reality is, however, that delivering participation processes costs money, and the amount allocated affects what is delivered and whether or not it works. Participation is competing for funds within institutional budget setting processes with many other worthwhile activities. Members of the public participation field (practitioners and academics) have long suggested that the resources allocated to public participation are inadequate, but at present there is no clear picture of what adequate resources actually are.'[39]

3.20 Hyd yn oed pan fydd mwy o wybodaeth a gwaith dadansoddi ar gael, prin yw'r cynghorau sy'n trefnu adolygiadau rheolaidd a systematig gan bwyllgorau craffu i fonitro defnyddioldeb ac ymarferoldeb y broses ymgysylltu a ddefnyddir. Hefyd, prin yw'r cynghorau sy'n ystyried sut y caiff mesurau perfformiad neu ganlyniadau arfaethedig eu nodi i ddechrau a sut maent yn ymwneud ag amcanion gwella neu strategaethau allweddol. Ar hyn o bryd, anaml y mae pwyllgorau craffu yn manteisio ar y cyfle i ystyried y math o wybodaeth sy'n deillio o'r gweithgarwch ymgysylltu a'i hansawdd yn fanylach. Nid yw pwyllgorau craffu ychwaith yn ystyried yn aml a yw ymdrechion y cyngor i ymgysylltu yn cael yr effaith ddymunol ar ganlyniadau megis gwella gwasanaethau.

3.21 Fodd bynnag, ar nodyn mwy cadarnhaol, ceir ychydig o enghreifftiau lle mae dull mwy trefnus o weithredu yn dechrau cael ei ddatblygu. Nid yn unig yr ystyriodd y Fforwm Craffu yng Nghyngor Sir Ddinbych effeithiolrwydd y dulliau ymgysylltu a ddefnyddiwyd fel rhan o ymgynghoriad Cynllun Mawr y Cyngor ond bydd yn parhau i fonitro sut y bydd gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn y dyfodol yn dylanwadu ar y broses o weithredu'r 'Cynllun Mawr' ei hun.

39 Sylw o'r cyhoeddiad *Making the case for public engagement: How to demonstrate the value of consumer input* gan Edward Andersson, Emily Fennell a Thea Shahrokh



Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu grwpiau rheoli cymdogaeth, mae'r Pwyllgor Craffu ar gyfer Trosedd ac Anrhefn yn cynnal adolygiad o weithgareddau ymrwymiad cymunedol Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel, sy'n ystyried ansawdd ac effaith gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, a pham mae rhai grwpiau cymunedol yn gweithio'n dda, tra bod rhai eraill yn methu.

## Ni roddir adborth yn dilyn gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn gyson i gyfranogwyr, nad ydynt yn cael cyfle yn aml i nodi sut y gellid bod wedi gwella'r gweithgarwch ymgynghori

**Arddangosyn 9: Pam mae'n bwysig rhoi adborth ar ôl ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd**

Mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ar bob cam o broses ymgynghori a phroses ymgysylltu, yn enwedig am y canlyniadau. Os na chaiff cyfranogwyr yr adborth hwn, gallent deimlo'n siomedig, neu'n ddrwgdybus hyd yn oed, ac maent yn annhebygol o gymryd rhan mewn cyfleoedd ymgysylltu yn y dyfodol. Mae'r *Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru*[40] yn argymell y canlynol: 'Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad. Rhoddir adborth amserol i'r cyfranogwyr i gyd am y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt a'r trafodaethau a'r camau gweithredu a gafwyd o ganlyniad; dylai dull a ffurf yr adborth roi ystyriaeth i hoffterau'r cyfranogwyr.'

### Anaml y mae cyfranogwyr yn cael gwybod pa wahaniaeth y mae gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i wneud a pha gyfraniad y maent wedi'i wneud i lywio'r hyn y mae cynghorau yn ei wneud

3.22 Problem fawr a nodwyd gennym, hyd yn oed ymhlith y cynghorau sy'n perfformio'n well, yw diffyg dull strwythuredig o roi adborth i'r cyhoedd ar ganlyniadau gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu, yn enwedig yr unigolion hynny a gymerodd ran yn y gweithgarwch ymgysylltu. Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau yn nodi'n glir y canlyniadau sy'n deillio o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Felly, yn aml nid yw'r cyhoedd yn gwybod pa ganlyniadau y maent yn debygol o'u cael o ran newidiadau neu welliannau i wasanaethau.

3.23 Ceir cryn dipyn o anghysondeb o ran safonau adborth o fewn cynghorau a rhyngddynt. Nid oes llawer o gynghorau yn rhoi nac yn cyfleu adborth pendant sydd wedi'i ysgrifennu'n dda i'r cyhoedd, yn enwedig cyfranogwyr, i ddangos effaith y gweithgarwch ymgysylltu a dangos bod y cyngor wedi gwrando ar farn y cyhoedd, wedi'i hystyried ac wedi gweithredu arni.

3.24 Nid yw rhai cynghorau yn rhoi unrhyw adborth priodol, tra nodwyd bod cynghorau eraill yn gwneud ymdrech dda i wneud hynny ond yn aml heb gael unrhyw effaith wirioneddol am nad oeddent yn nodi'r union ganlyniadau a gwelliannau. Mewn rhai achosion, cyhoeddir canlyniadau beth amser ar ôl yr ymgynghoriad cychwynnol. Mae'n arbennig o wir yn achos ymgynghoriadau anstatudol, llai o faint, tra bod ymgynghoriadau corfforaethol mawr yn cael eu hyrwyddo mewn papurau lleol, cylchlythyrau cymunedol neu wefannau. Mae'r problemau mwyaf cyffredin sy'n gysylltiedig ag adborth fel a ganlyn:

40 *Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru*, a lansiwyd gan Cyfranogaeth Cymru, Mehefin 2011 (gweler Atodiad 3 am fanylion cyfeirio).

**a** Yn aml ni cheir unrhyw safonau na fframweithiau cynllunio corfforaethol y cytunwyd arnynt mewn cynghorau sy'n nodi sut y dylai adborth gael ei lunio, gan bwy a phryd a pha fath o adborth y dylid ei lunio. Yn aml nid yw adborth yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth wrth gynllunio digwyddiadau ymgynghori, neu hyd yn oed ar ôl eu cwblhau, pan gaiff ei roi yn aml beth amser ar ôl y digwyddiad ymgynghori.

**b** Nid oes unrhyw unigolyn na thîm penodol yn cymryd cyfrifoldeb am roi adborth. Mae gan y swyddogion cyfathrebu corfforaethol y sgiliau i lunio adborth sydd wedi'i ysgrifennu'n dda, ond yn aml nid oedd ganddynt gysylltiadau uniongyrchol â swyddogion ymgynghori na gwasanaethau er mwyn trefnu i roi adborth. Hefyd efallai nad oes gan swyddogion cyfathrebu ddigon o adnoddau i ddarparu'r fath wasanaeth. O ganlyniad, mae'r math o adborth a'i ansawdd yn amrywio cryn dipyn o fewn cynghorau a rhyngddynt am nad oes unrhyw reolaeth na goruchwyliaeth olygyddol gyffredinol yn aml o ran pa fath o adborth a roddir a faint.

**c** Prin yw'r ymchwil a wnaed gan gynghorau i nodi pa wybodaeth adborth y mae'r cyhoedd am ei chael a sut maent am ei chael. Er enghraifft, a fyddai'n well gan bobl wefannau, ymatebion drwy'r post, papurau newydd neu dechnoleg newydd? Mae adroddiadau ffurfiol i'r cyngor yn aml yn cael eu hystyried yn adborth digonol, am eu bod ar gael yn gyhoeddus, er eu bod yn aml yn cael eu hysgrifennu mewn iaith ffurfiol, lawn jargon. Hefyd, o gael ei gynnwys ar wefan, mae adborth yn aml yn anodd ei ganfod, neu mae'n cael ei hyrwyddo'n wael neu mae'r cyfeiriadau ato yn aneglur.

**ch** Mae adborth ystyrlon yn dibynnu ar waith dadansoddi data da. Fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, nid oes gan nifer o gynghorau yr arbenigedd i ddadansoddi'r holl ddata sy'n dod i law er mwyn cynnig trosolwg a dadansoddiad manwl. Mae'r diffyg gwaith dadansoddi hwn yn ei gwneud yn anodd troi'r data hwnnw'n gamau gweithredu gwirioneddol y cytunwyd arnynt a nodi pa ganlyniadau a gyflawnir a pha newidiadau a wneir.

**d** Ni allai'r rhan fwyaf o gynghorau ddangos eto fod ganddynt broses glir sy'n dangos sut y caiff mewnbwn y cyhoedd ei fwydo i'r broses gwneud penderfyniadau a'i ddefnyddio yn y broses honno. Byddai hyn yn helpu'r cyhoedd i ddeall beth sy'n digwydd i'w mewnbwn a sut y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau. Gall proses a nodwyd yn glir hefyd esbonio pam a sut y mae cyngor yn gweithredu ar awgrymiadau ai peidio, a sut y dylanwadodd y cyhoedd ar y canlyniadau terfynol.

### Yn olaf, anaml y mae'r cyhoedd ei hun yn cael cyfle i wneud sylwadau ar effeithiolrwydd y prosesau ymgysylltu a ddefnyddir gan gynghorau

**3.25** Nodwyd mai anaml y mae cynghorau yn ceisio canfod sut, pryd a pham y mae pobl am i gynghorau ymgynghori neu ymgysylltu â hwy mewn ffordd gynhwysfawr. Anaml y mae aelodau'r cyhoedd yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar b'un a yw dulliau ymgysylltu â'r cyhoedd cyfredol yn dderbyniol, yn ddiddorol neu'n fuddiol; neu awgrymu syniadau amgen ynglŷn â sut y gellir gwella'r modd y darperir gwybodaeth, digwyddiadau ymgysylltu a phrosiectau.



**3.26** Nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau yn egluro i gyfranogwyr pa rôl y maent yn disgwyl i aelodau'r cyhoedd ei chwarae yn ystod digwyddiadau ymgysylltu. Megis, er enghraifft: darllen neu wrando a dysgu; cyflwyno sylwadau i helpu i ddatblygu neu addasu prosiect sefydledig y cytunwyd arno; helpu i ddewis prosiect neu ganlyniad o restr a ddewiswyd ymlaen llaw, ar ôl cael gwybodaeth am y manteision a'r anfanteision; neu ymuno â thrafodaeth neu ddadl ynghylch newid pwysig i wasanaeth, sy'n gofyn am rywfaint o wybodaeth. Byddai rhyw syniad o'r rôl y mae'r cynghorau yn disgwyl i'r cyhoedd ei chwarae yn helpu i reoli disgwyliadau'r cyfranogwyr a helpu cynghorau i ddewis dulliau ac adnoddau ymgysylltu priodol.

**3.27** Anaml y mae'r cyhoedd yn cael gweld gwybodaeth am berfformiad na gwaith ar ffurf adroddiad ac felly ni allant gael gwybodaeth am hunanasesiad cyngor o'i weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Ac nid yw aelodau'r cyhoedd yn cael cyfle yn aml i gyflwyno eu sylwadau ar ba mor dda roedd digwyddiadau ymgysylltu wedi'u trefnu, yn eu barn hwy.

**3.28** Am nad yw aelodau'r cyhoedd yn chwarae rôl bwysig yn y broses graffu eto, ni allant ymuno â phwyllgorau craffu i adolygu'r prosesau ymgysylltu. Fodd bynnag, mae nifer fach o gynghorau yn ystyried sut y gallant addasu eu trefniadau llywodraethu i'w gwneud yn bosibl i ddatblygu mwy o rôl i'r cyhoedd mewn swyddogaethau craffu a throsolwg. Hefyd, er mwyn profi pa mor dda y mae'n cyfathrebu ac yn cynnwys y cyhoedd, mae rhai cynghorau yn ystyried llunio dull 'Grŵp Darllen'[41], er mwyn manteisio ar y profiad neu'r cyngor arbenigol y gall pob dinesydd unigol eu cynnig, a helpu i feithrin cydymddiriedaeth a hyder.

41 Grŵp sy'n cynnwys aelodau'r cyhoedd sy'n darllen ac yn cynnig sylwadau ar ansawdd a chynnwys deunydd ysgrifenedig a luniwyd gan gyngor.

# Atodiadau





# Atodiad 1 – Dulliau archwilio

## Adolygiad o lenyddiaeth

Rydym wedi adolygu amrywiaeth eang o ddogfennau gan gynnwys:

- dogfennau polisi, strategaeth, ymchwil a chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd;
- ymchwil academaidd a chanllawiau cyfredol gan lawer o ffynonellau eraill gan gynnwys Cyfranogaeth Cymru, yr Asiantaeth Gwella a Datblygu (IDeA), Llais Defnyddwyr, Llywodraeth yr Alban, Swyddfa'r Cabinet, Canolfan Iechyd Cymru ac Ysgol Fusnes Caerdydd;
- enghreifftiau o arfer da o'r Deyrnas Unedig, Ewrop ac Unol Daleithiau America; a
- llenyddiaeth a dogfennau sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd gan gynghorau lleol.

Ymdriniodd ein hadolygiad o'r llenyddiaeth â'r themâu canlynol:

- egluro'r gwahanol ddehongliadau a diffiniadau o'r termau sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd;
- yr agweddau technegol ac ymarferol ar y gwaith o gynllunio a chyflawni gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys pennu cwmpas a datblygu dull gweithredu strategol, rheoli perfformiad, monitro a gwerthuso a defnyddio adnoddau yn effeithlon;
- y materion allweddol sy'n ymwneud â chydweddoldeb Democratiaeth Gyfranogol a Democratiaeth Gynrychioliadol a phrosesau cyd-gynhyrchu rhyngddynt;
- effaith gwaith rhanbarthol a mwy o gydweithio ar y broses o gynllunio a chyflawni gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd;
- egluro rolau'r 'cyfranogwyr' allweddol mewn gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, sef, y cyngor (staff, rheolwyr a chynghorwyr), Byrddau Gwasanaethau Lleol a phartneriaid eraill a'r cyhoedd, ac effaith y rolau hynny; a
- chynllunio a chyflawni gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ym mhob un o'r 22 o gynghorau lleol yng Nghymru.

## Data ac Ystadegau

Oherwydd natur gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru a'r defnydd a wneir ohono ar hyn o bryd, ychydig iawn, iawn o ddata ac ystadegau sydd ar gael. Fodd bynnag, coladwyd rhywfaint o ddata rhifiadol gennym ar y cynnydd yn nifer y dogfennau strategol, canllawiau ac adnoddau sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd.

### Cyfweliadau a gwaith maes

Yn ystod y camau cynnar ym mis Ionawr a mis Chwefror 2011, cyfarfuwyd â Llywodraeth Cymru, Cyfranogaeth Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i helpu i lywio cwmpas yr astudiaeth ac ystyried ein llinellau ymholi allweddol. Cynhaliwyd astudiaeth beilot ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, ac rydym yn ddiolchgar iddo. Yn ystod y gwaith safle rhwng mis Mawrth a mis Awst 2011, cynhaliwyd cyfweliadau â'r 21 o gynghorau a oedd yn weddill, gan gynnwys staff a chynghorwyr allweddol a oedd yn gyfrifol am ymgysylltu â'r cyhoedd neu a oedd yn ymddiddori yn y maes hwnnw, ynghyd ag adolygiadau o ddogfennau. Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd â phartneriaid pwysig, gan gynnwys y Byrddau Gwasanaethau Lleol a'r sector gwirfoddol.

### Ymweliadau â digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd

Buom yn bresennol mewn sawl digwyddiad a fu'n hyrwyddo ac yn cynnig hyfforddiant mewn methodoleg ymgysylltu â'r cyhoedd. Roedd y dulliau gweithredu hyn yn cynnwys y canlynol:

- Rhwydwaith Preswyl Blynyddol Cyfranogaeth Cymru 2011 mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.
- Gweithdy Rhoi Egwyddorion Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Waith a hwyluswyd gan Cyfranogaeth Cymru.
- Gweithdy Ysgol Haf PSMW ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ac Egwyddorion Cenedlaethol.
- Diwrnodau hyfforddi Achrededig ar Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer pob ymarferwr.
- Digwyddiad Rhwydwaith ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer ymarferwyr ymgysylltu.

### Ein Grŵp Cyfeirio Astudiaeth

Sefydlwyd Grŵp Cyfeirio Astudiaeth rhithwir fel panel o arbenigwyr i'w ddefnyddio fel 'seinfwrdd' i brofi ein canfyddiadau a'r argymhellion a ddeilliodd ohonynt. Roedd y Grŵp yn cynnwys hyfforddwyr ac ymarferwyr ymgysylltu â'r cyhoedd, cynghorwyr yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol, uwch swyddogion polisi ac ymchwil yn Llywodraeth Cymru, ymchwilydd academaidd, prif swyddogion a oedd yn ymwneud ag ymchwil gymdeithasol ac ymchwil i ddefnyddwyr. Roeddent yn cynrychioli'r sefydliadau canlynol:

- Cyfranogaeth Cymru – Amanda Williams, Rheolwr Gweithrediadau.
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg – Gwenith Price, Cyfarwyddwr Cynlluniau Iaith.
- Llais Defnyddwyr – Vivienne Sugar, Cadeirydd.
- Tîm Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru – Is-adran Polisi a Pherfformiad Creu'r Cysylltiadau, yr Adran Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cynulliad Cymru – Steve Pomeroy, Pennaeth Strategaeth Llywodraeth Leol, a Richard Shearer.
- Interact Networks – Lindsey Colebourne.
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Daniel Hurford, Pennaeth Polisi Interim, a Clover Rodrigues, Swyddog Polisi (Gwella a Llywodraethu).
- Ysgol Fusnes Caerdydd – Dr Tom Entwhistle, Uwch Ddarlithydd mewn Polisi a Rheoli Cyhoeddus.
- Achub y Plant – Emyr Williams, Rheolwr yr Uned Gyfranogi.



# Atodiad 2 – Cyfeiriadau Astudiaethau Achos, gan gynnwys y rhai nas defnyddiwyd yn yr adroddiad hwn

Hoffem ddiolch i'r cynghorau canlynol am gyflwyno astudiaethau achos. Er na allwn gynnwys pob un ohonynt yn yr adroddiad, byddant ar gael ar y Gyfnewidfa Arfer Da a hoffem annog cynghorau eraill i ychwanegu at y llyfrgell gynyddol o enghreifftiau, syniadau da ac astudiaethau achos. Byddwn hefyd yn cynnwys enghreifftiau eraill o arfer da o bob rhan o'r Deyrnas Unedig.

| Cyngor | Thema neu Deitl | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Wrecsam | Panel tenantiaid a lesddeiliaid | Ymrwymiad i ymgysylltu dros gyfnod hir o amser. Strategaeth hirdymor, gynhwysfawr i ymgysylltu â thenantiaid a lesddeiliaid, a arweiniodd at breswylwyr yn gweithio gydag Aelodau drwy bartneriaeth Tenantiaid a Lesddeiliaid Wrecsam. |
| Rhondda Cynon Taf | Bro-garwyr Tra Mad | Ymgysylltu effeithiol, tymor hwy â phobl ifanc a chymunedau i hyrwyddo materion gwyrdd yn seiliedig ar ddigwyddiadau, prosiectau ysgol a rhyngweithio, prosiectau arbennig i fynd i'r afael â phroblemau penodol ee, llygredd, ysbwriel. |
| Rhondda Cynon Taf | Viewpoint | Ymgynghori â phobl ifanc ar raddfa fawr - gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac e-gyfathrebu. |
| Rhondda Cynon Taf | Fframwaith – Teuluoedd yn Gyntaf | Cynnwys teuluoedd yn y gwaith o lunio a gwneud penderfyniadau ynghylch cynllunio a darparu gwasanaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar deuluoedd. Mae gweithgarwch ymgynghori yn canolbwyntio ar brofiadau presennol plant, pobl ifanc a theuluoedd y mae angen cymorth dwys arnynt, gan nodi meysydd allweddol sy'n achosi pryder ac arwain at argymhellion hyddysg ar gyfer gwella - cydberthynas agos â theuluoedd i drafod atebion i'w problemau cymdeithasol a theuluol a chytuno arnynt. |
| Castell-nedd Port Talbot | Adolygiad o systemau | Ailgynllunio busnes sy'n gofyn am gyfraniad uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaethau i wella gwasanaethau Ymgynghori a grymuso – sy'n rhoi cyfle i ddefnyddwyr gwasanaethau ddylanwadu ar y gwaith o gynllunio gwasanaethau y byddant yn cael budd ohonynt fel gwasanaethau o well ansawdd. |
| Blaenau Gwent | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETS) | Rhanddeiliaid a phobl ifanc yn gallu dylanwadu ar bolisïau'r cyngor – drwy gyfleoedd ymgysylltu megis uwchgynhadledd ar NEETS sy'n cynnwys nifer fawr o bobl ifanc yr effeithir arnynt ac sy'n cynnig cyfle iddynt gyfarfod â darparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid allweddol i drafod polisïau cyfredol a'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau. Hysbysu a Grymuso pobl ifanc difreintiedig i ddylanwadu ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau. |
| Blaenau Gwent | Eich llais: eich dewis | Ymgysylltu cynhwysfawr – yn seiliedig ar Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol; grymuso aelodau'r cyhoedd – drwy eu cynnwys yn y broses o drafod a negodi prosiectau a ddylai fynd i'r afael â phroblemau diogelwch cymunedol a nodwyd i ddechrau gan breswylwyr a chytuno ar y prosiectau hynny. Annog aelodau'r cyhoedd i nodi pryderon lleol a datblygu prosiectau i fynd i'r afael â'r meysydd sy'n achosi problemau. Rhoddwyd arian i roi 17 o brosiectau y cytunwyd arnynt ar waith. |

| Cyngor | Thema neu Deitl | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | Fforwm Mynediad i Bawb | Mae'r Fforwm wedi chwarae rhan allweddol o ran codi ymwybyddiaeth o anableddau a'r problemau sy'n wynebu unigolion ag anableddau o ran defnyddio gwasanaethau lleol. Derbyniodd y fenter Wobr Rhagoriaeth Cymru. |
| Blaenau Gwent | Fforwm 50+ | Bu gwaith a chyfranogiad Fforwm 50+ yn fodd i nodi'r angen i'w gwneud yn haws i unigolion gael gafael ar wybodaeth y Cygnor ac argaeledd gwybodaeth i bobl hŷn. |
| Caerffili | Cynnwys plant a phobl ifanc | Mae'n rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ddylanwadu'n uniongyrchol ar broses llywodraethu, cynllunio a gwneud penderfyniadau'r Cyngor ac adlewyrchu anghenion plant a phobl ifanc wrth ddarparu gwasanaethau.<br>Ymgynghori, cynnwys a grymuso. |
| Caerffili | Gwybodaeth ar dudalen ar y we 'Weather warning' | Defnyddio technoleg newydd i roi gwybodaeth i deuluoedd ar adegau o argyfwng – gwybodaeth ar gael i deuluoedd â mynediad i'r rhyngrwyd. Fe'i diweddarir gan athrawon a staff ysgolion ar sail amser real a gellir defnyddio technoleg gyfrifiadurol gartref a symudol i gael gafael arni. |
| Caerffili | Porth gwefan Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd | Mae'n defnyddio technoleg newydd i gasglu, storio a rhannu gwybodaeth am weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ymhlith partneriaid a'r cyhoedd. Mae'n rhoi sail dda i gynnal a chofnodi gweithgarwch ymgysylltu. Bwriedir datblygu'r porth ymhellach er mwyn i bartneriaid ei ddefnyddio a'i rannu a rhoi adborth mwy effeithiol o weithgarwch ymgysylltu. Nid oes unrhyw reswm pam na ellid rhannu porth ymgysylltu safonol ymhlith y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn sicrhau dull mwy cydgysylltiedig o ymgysylltu. |
| Ynys Môn | Sioeau teithiol ar bennu cyllideb y Cyngor | Roedd Cyngor Ynys Môn yn cael llawer o sylw negyddol yn y cyfryngau ac roedd ei Gabinet mewn anhrefn llwyr am nad oedd unrhyw agenda y cytunwyd arni i ddatblygu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Roedd y fenter yn un newydd i'r Awdurdod a bu'n fodd i greu gwell cydberthnasau â'r cyhoedd yn ogystal â chynnwys barn y gymuned am y broses o bennu'r gyllideb. |
| Sir Gaerfyrddin | Sialens Gymunedol Sir Gâr | Ymgynghoriad Glanyfferi - sialens gymunedol i'r sir gyfan i leihau ôl troed carbon. Mae'r Cyngor yn ceisio lleihau ei ôl troed carbon ei hun ac mae hefyd yn annog trigolion i wneud yr un peth drwy ymgysylltu â chymunedau i gefnogi prosiectau a mentrau lleihau carbon lleol. Ymgynghori a chydweithredu ar fater amgylcheddol pwysig. |
| Caerdydd | Holi Caerdydd – *Beth Sy'n Bwysig*<br>Holi Caerdydd – Asesu anghenion ar y cyd | Dyma'r tro cyntaf i ddull ymgynghori ac ymgysylltu yn seiliedig ar asesiad anghenion strategol ar y cyd a gwaith partneriaeth gael ei fabwysiadu er mwyn llywio strategaeth a pholisi ym mhob un o'r darparwyr gwasanaethau yn y sector cyhoeddus drwy ddatblygu Strategaeth Bartneriaeth integredig a elwir yn Beth sy'n Bwysig. Dull partneriaeth a rhannu data – ar ymgynghoriad statudol. |



| Cyngor | Thema neu Deitl | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Caerdydd | Gwe-ddarlledu Cyfarfodydd y Cyngor | Defnyddio technoleg newydd i hyrwyddo trafodion y Cyngor a rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd amdanynt. Mae penderfyniad y Cyngor i we-ddarlledu cyfarfodydd y cyngor wedi galluogi trigolion Caerdydd ac unrhyw bartïon eraill â diddordeb i wylio cyfarfodydd ar-lein, gyda'r nod o wneud trafodion y Cyngor yn hygyrch ac yn dryloyw i gynulleidfa ehangach a rhoi cofnod cywir o bob cyfarfod. Y cyngor cyntaf yng Nghymru i ddarlledu cyfarfodydd y cyngor yn rheolaidd ar wefan. |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu a hyrwyddo dull cyson o ymgysylltu â'r gymuned | Partneriaid yn cydweithio i gyflawni canlyniadau a rennir yn deillio o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Lleol mae'r Cyngor wedi drafftio Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Fe'i mabwysiadwyd gan bob partner a lle y bo angen fe'i haddaswyd i ddarparu ar gyfer unrhyw ofynion penodol a oedd gan bob sefydliad partner. |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol drwy weithio'n agos gyda'r sector gwirfoddol ar weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned | Partneriaid yn cydweithio i gyrraedd a chynnwys cymunedau ehangach. Drwy weithio'n agos gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr mae'r Cyngor yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o grwpiau cymunedol a grwpiau defnyddwyr. Mae'r Aelod o'r Cabinet yn chwarae rôl flaenllaw o ran ymgysylltu â'r sector gwirfoddol. Mae'n defnyddio rhwydweithiau presennol a sefydlwyd o fewn y sector gwirfoddol i gyrraedd amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr gwasanaethau. |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Meithrin gallu i ymgysylltu â phobl ifanc o bob oedran | Mae'r Cyngor yn dangos nad yw oedran yn rhwystr i ymgysylltu â phobl ifanc a'u grymuso i ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu eu hunain. Mae'r CYP yn hyfforddi pobl ifanc i ymgysylltu â phobl ifanc eraill. Mae'r dechneg hon yn cael tystiolaeth ansoddol o ansawdd da gan bobl ifanc o bob oedran gan gynnwys plant cyn oedran ysgol. |
| Conwy | Amddiffynfeydd arfordirol a glan môr Bae Colwyn | Partneriaid yn ymgysylltu â'r cyhoedd i newid y modd y cyflawnir prosiectau i gyd-fynd ag anghenion y cyhoedd. Mae cyfranogiad y cyhoedd wedi helpu i newid amddiffynfeydd môr newydd o fod yn strwythurau amddiffynnol yn unig i fod yn strwythurau y gellir eu defnyddio hefyd fel promenâd a chanolfan chwaraeon dŵr arloesol. Gan gyfuno swyddogaeth beirianyddol bwysig â sbardun ar gyfer adfywio'r dref. Menter arloesol, a gafodd ei marchnata a'i chyflwyno'n dda, a oedd yn annog cyfranogiad. |
| Sir Ddinbych | Cyllidebu cyfranogol ym mharc Cae Ddôl, Rhuthun | Grymuso cymuned a'i chynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau, a arweiniodd at gyfleuster chwarae newydd yn y parc i blant ac at drigolion yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a'u bod yn cyfrannu at y broses o wneud penderfyniad.<br><br>Ymgysylltodd y Cyngor yn uniongyrchol â'r cyhoedd i drafod y penderfyniad i gau cyfleusterau hamdden sydd wedi wynebu cryn wrthwynebiad gan y cyhoedd. Arweiniodd gweithgarwch ymgysylltu at drafodaeth ynghylch rhesymau dros wrthwynebu'r penderfyniad a chynigiwyd cyllideb o £24,000 i drigolion ei gwario ar gyfleusterau amgen - a arweiniodd y pen draw at gefnogaeth i'r cynllun ac ymdeimlad o berchenogaeth arno ymhlith y trigolion. Newidiodd cyfleusterau newydd ganfyddiadau'r cyhoedd ac arweiniodd gweithgarwch ymgysylltu â'r holl gynigwyr ar bob cam o'r adolygiad technegol at weithgarwch ymgysylltu llawn ac effeithiol â'r cyhoedd; gan leihau'r potensial ar gyfer beirniadaeth neu ddrwgdeimlad. |

| Cyngor | Thema neu Deitl | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Sir Ddinbych | Y Ddadl Fawr | Ymgynghoriad â'r cyhoedd ynghylch rhaglen arbedion effeithlonrwydd y cyngor yn ystod y pedair blynedd nesaf - er mwyn helpu i flaenoriaethu amcanion allweddol y nododd y cyhoedd fod eu hangen a pha wasanaethau a allai gael eu darparu gan gyrff eraill. Cynlluniwyd y prosiect yn fanwl a defnyddiodd bŵer ymgynghori ar y we, gan gynnwys dulliau mwy traddodiadol megis ymatebion ysgrifenedig. Ystyriodd yr Awdurdod amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys caffael nwyddau, defnyddio adeiladau, lleihau achosion o ddyblygu, rhannu adnoddau, edrych ar ddulliau amgen o ariannu, ystyried pa wasanaethau sy'n hanfodol. Nid yw'n unigryw i Gymru, ond mae'n esiampl o broses ymarferol ac agored am ei bod yn galluogi ymatebwyr i roi adborth ychwanegol yn ogystal â nodi ble yr hoffent weld arbedion effeithlonrwydd yn cael eu gwneud. Roedd hefyd yn cynnwys nodi ble y gellid targedu gwaith partneriaeth yn well. Gall y broses ymdrin â sampl fawr am gost gymharol isel y pen. |
| Sir Ddinbych | Y cysyniad o Grwpiau Aelodau Ardal | Mae Grwpiau Aelodau Ardal yn strwythur diwygiedig o fodel daearyddol blaenorol a oedd yn cynnwys aelodau, swyddogion a chynrychiolwyr o gymunedau. Mae'r syniad y tu ôl i'r cysyniad yn un da ac mae'n ffordd amgen o sicrhau ymgysylltu parhaus heb waith gweinyddu a marchnata drud.<br><br>Hysbysu, ymgynghori, cynnwys a grymuso. |
| Sir Ddinbych | Teulu Ceri – sydd wedi ennill gwobrau | Hysbysu defnyddwyr gwasanaethau o faterion cymhleth a sensitif sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt ac ymgynghori â hwy yn eu cylch. Mae Teulu Ceri yn deulu cyfryngol rhithwir ar y we ac mae oedran aelodau'r teulu yn amrywio o ddwy flwydd oed i 81 oed. Y nod oedd dod â phroblemau go iawn yn fyw, yn enwedig i'r grwpiau hynny y nodwyd eu bod yn anodd eu cyrraedd a heb fod yn gynhwysol yn gymdeithasol. Mae'r fenter yn ymdrin ag amrywiaeth eang o grwpiau gofal cymdeithasol a grwpiau oedran ac mae'n darparu canllaw hawdd ei ddefnyddio i helpu teuluoedd ac unigolion. |
| Powys | Porth gwefan Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd | Mae'r porth gwefan yn rhoi sail dda i gynnal a chofnodi gweithgarwch ymgysylltu. Bwriedir datblygu'r porth ymhellach er mwyn i bartneriaid ei ddefnyddio a'i rannu a rhoi adborth mwy effeithiol o weithgarwch ymgysylltu. |



# Atodiad 3 – Rhestr o gysylltiadau, dogfennau ymchwil a chyfeiriadau gwefannau defnyddiol gan gynnwys Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru

## Rhai gwefannau a dogfennau defnyddiol

Noder mai dim ond ar y fersiwn electronig o'r adroddiad hwn y gellir gweithredu'r dolenni hyn. Dim ond samplau o'r wybodaeth sydd ar gael a geir yn y dogfennau hyn – nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr a chewch lawer mwy o wefannau a dogfennau sy'n ymwneud ag ymgysylltu yn ystod eich ymchwil.

Noder hefyd fod rhai o'r dolenni isod yn Saesneg yn unig.

http://www.participationcymru.org.uk

- Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru
- Llawlyfr ymarferwyr ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd
- Adnoddau eraill Cyfranogaeth Cymru
- Grŵp Cynllunio Ymgysylltu â'r Cyhoedd (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Cyfranogaeth Cymru, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, NHLIAH, Cydffederasiwn y GIG a Swyddfa Archwilio Cymru). Cydgysylltir cyfarfodydd gan Cyfranogaeth Cymru ac aelodau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Helen Keatley ar 02920 320500

www.participationworkerswales.org.uk
www.participationworkerswales.org.uk/standards/

- Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc

www.tpas.org.uk/

- Cyfranogiad: Y Genhedlaeth Nesaf

www.involve.org.uk

- Deliberative public engagement: nine principles
- Participation Nation – Reconnecting Citizens to the Public Realm INVOLVE 2007
- Benefits of investing in community empowerment
- Making the case for public engagement: How to demonstrate the value of consumer input
- Involve @what the public say PE in national decision making July 2010
- Participation Nation – Reconnecting Citizens to the Public Realm INVOLVE 2007
- Developing your comprehensive community engagement strategy
- What the public say: Public engagement in national decision-making
- People and Participation: How to put the citizen at the heart of decision making

www.idea.gov.uk (Gwella a Datblygu Llywodraeth Leol)
www.goodpracticewales.com
www.goodpracticewales.com/Resources/Citizen-Engagement
www.funkydragon.org

- Tanio Cyfranogiad

www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk/default.aspx

- Children's Rights – Spice 'em up
- Participation – Young spice
- www.uncrcletsgetitright.co.uk/resourceslanding.aspx

www.llaisdisgyblioncymru.org.uk/cymraeg/hafan/

- www.llaisdisgyblioncymru.org.uk/cymraeg/hafan/adnoddau/

wales.gov.uk/

- Single Delivery Plan – consultation
- Conclusion Inclusion through Innovation: Tackling Social Exclusion through New Technologies (Social Exclusion Unit 2005)

www.scotland.gov.uk/Publications/2008/07/16085900/0

- The Scottish Government – The Ten Standards Positive evaluation
- Public Services Reform (Scotland) Act 2010: Section 112(1)

www.wlga.gov.uk/

- CLILC – ' Y Dinesydd yn Ganolbwynt Prosesau Craffu' – Ymgysylltu â'r Bobl i Ddibenion Trosolwg a Chraffu: Cyhoeddiadau Trosolwg a Chraffu: Gwella a Llywodraethu: Cyhoeddiadau: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cefnogi a Datblygu Aelodau: Gwella a Llywodraethu: Ein gwaith: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cwrs Sefydlu Arweinwyr Cymunedol CLILC



www.psucymru.org.uk/rba
(Uned Cefnogi'r Partneriaethau) Datblygu dull gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau
Public Health Practitioner's Public Engagement Toolkit
www.neweconomics.org
www.neweconomics.org/publications/crowd-wise
coi.gov.uk/
(Gwybodaeth Swyddfa'r Cabinet)

- Effective public engagement: A guide for policy-makers and communications professionals
- Public engagement briefing form

www.nlgn.org.uk
(Rhwydwaith llywodraeth leol newydd)

- Changing Behaviours: Opening a new conversation with the citizen (Nigel Keohane)

www.participationhub.org.uk (Saesneg) (Lansiwyd ddechrau mis Mehefin 2012)
www.participationhub.org.uk/PorthCyfranogiad/ (Cymraeg). (Lansiwyd ddechrau mis Mehefin 2012)

www.interactnetworks.co.uk